

# CYNLLUN YR WYDDFA





# CYNNWYS

01 Rhagair
02 Rhagymadrodd
03 Astudiaethau achos
04 Cyflwr Yr Wyddfa
05 Proses ddatblygu'r Cynllun
06 Ein haddewid
07 Sut mae'r Cynllun yn gweithio
08 Cynllun gweithredu

# 01 Rhagair

Gyda balchder mawr, yr wyf yn cyflwyno'r fersiwn ddiwygiedig o Gynllun Yr Wyddfa, ar gyfer mynydd sy'n symbol o harddwch naturiol, ac o arwyddocâd diwylliannol. Fel Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, mae'n anrhydedd i mi gyflwyno'r weledigaeth hon ar gyfer y dyfodol—un sy'n seiliedig ar ein hymrwymiad dwfn i ddiogelu'r dirwedd eiconig hon a sicrhau ei defnydd cynaliadwy am genedlaethau i ddod.

Mae'r Wyddfa yn fwy na chopa uchaf Cymru - mae'n ffynhonnell ysbrydoliaeth, yn lloches, ac yn rhan annatod o hunaniaeth ein cymunedau. Mae'r mynydd yn ffurfio calon Parc Cenedlaethol Eryri, ardal warchodedig sy'n cwmpasu ystod amrywiol o ecosystemau, olion hanesyddol, a threftadaeth ddiwylliannol gyfoethog. Mae Cynllun Yr Wyddfa yn gynnyrch blynyddoedd o gydweithio, ymgynghori a chyd-ddylunio gydag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys cymunedau lleol, tirfeddianwyr, ffermwyr, cadwraethwyr, gweithredwyr twristiaeth, a llunwyr polisi.

Nod pennaf y Cynllun hwn yw sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng cadwraeth a'r defnydd amrywiol a wneir o'r mynydd. Mae heriau sylweddol yn ein hwynebu wrth gynnal ecosystemau bregus Yr Wyddfa, meithrin ei threftadaeth ddiwylliannol, a rheoli diddordeb cynyddol yn yr ardal. Fodd bynnag, gyda chynllunio gofalus ac ymdrech ar y cyd, rwy'n hyderus y gallwn ddiogelu'r dirwedd anhygoel hon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Cynllun hwn yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd, ymgysylltu â'r gymuned, a pharch at yr amgylchedd naturiol a chymunedau lleol. Mae'r camau gweithredu a'r strategaethau a amlinellir yn y Cynllun yn adlewyrchu gwerthoedd craidd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ac yn sicrhau bod ein dulliau o gadwraeth, mynediad a thwristiaeth yn gytbwys ac yn atgyfnerthu ei gilydd.





Mae hefyd yn bwysig nodi bod y Cynllun hwn yn cyd-fynd â blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol ehangach, gan gynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol, lliniaru newid hinsawdd, a hyrwyddo twristiaeth gyfrifol. Rydym wedi ystyried anghenion a dyheadau pawb sy'n dibynnu ar Yr Wyddfa, gan gynnwys y bobl sy'n byw yn ei chysgod, y ffermwyr, tirfeddianwyr, ac eraill sy'n gweithio ar y mynydd, yn ogystal â'r rhai sy'n dod i brofi ei harddwch.

Hoffwn fynegi fy niolchgarwch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r Cynllun hwn. Gyda'n gilydd, gallwn sicrhau bod Yr Wyddfa yn parhau i ysbrydoli a ffynnu am flynyddoedd lawer i ddod.

**Jonathan Cawley**

**Prif Weithredwr,**
**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**



# 02 Rhagymadrodd

Yr Wyddfa yw mynydd uchaf Cymru yn sefyll yn gadarn yng nghalon Parc Cenedlaethol Eryri. Yn esgyn 1,085 medr uwchlaw lefel y môr, mae'n dirnod naturiol hynod drawiadol sydd wedi swyno dychymyg pobl o bob cefndir ers canrifoedd. Mae'r copa urddasol hwn nid yn unig yn nodwedd ddaearyddol odidog, ond mae ganddo hefyd arwyddocâd diwylliannol, hanesyddol ac ecolegol dwfn.

Wrth ei godre cysgodai bentrefi a chymunedau diwylliedig sydd â'r golygfeydd eiconig o'r Wyddfa yn rhan annatod o'u bywyd dyddiol. Mae yna ymdeimlad dwys o berthyn a pharch rhwng y mynydd a'i bobl. Mae yma glytwaith o ffermydd, cribau creigiog, dyffrynnoedd rhewlifol a llynnoedd dilychwin sy'n cynnig amgylchedd syfrdanol i fywyd gwyllt ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae'r Wyddfa yn gartref i ecosystemau amrywiol a phrin sy'n cefnogi amrediad eang o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid sydd yn medru goroesi mewn cynefin alpaidd o'i fath. Mae ei golygfeydd godidog a'i thirweddau dramatig wedi bod yn gyrchfan i fotanegwyr, cerddwyr, a dringwyr a mynyddwyr byd-enwog. Mae hefyd wedi bod yn hafan i'r rhai sydd am ymgysuro ym myd natur, ac mae'n parhau i chware rhan allweddol yn yr economi leol a rhanbarthol, yn ogystal â llesiant ei chymunedau.

Tu hwnt i'w harddwch naturiol, mae'r Wyddfa wedi'i thrwytho mewn treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog, gyda chysylltiadau dwfn â chwedloniaeth, llên gwerin a hanes Cymreig. Mae'r mynydd yn rhan annatod o straeon y Cymry, o arwyr hynafol i ddatblygiad llwybrau diwydiannol a thwristiaeth gynnar. Mae hefyd yn symbol o wydnwch a balchder cenedlaethol, yn cynrychioli nid yn unig gadernid y tirlun Cymreig ond ysbryd oesol y cymunedau. Yn ysbrydoliaeth i ddywediadau, barddoniaeth, llenyddiaeth a chelfyddyd Gymreig, mae wedi treiddio'n ddwfn i seice'r Cymry. Mae perthynas y Cymry â'r Wyddfa yn un agos, gyda rhyw ddyletswydd gymdeithasol, neu ryw reol anysgrifenedig y dylai bob Cymro neu Gymraes falch gyrraedd ei chopa o leiaf unwaith.

Serch hynny, mae amgylchedd bregus Yr Wyddfa yn wynebu heriau dwys yn sgil gweithgareddau dynol. Er hyn, mae'r berthynas yn parhau'n gadarn, ond yn gymhleth. Mae ei chadwraeth a'i rheolaeth gynaliadwy yn hanfodol ar gyfer sicrhau fod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu mwynhau ei rhyfeddodau naturiol a'i threftadaeth gyfoethog.







# Partneriaeth Yr Wyddfa

Mae Partneriaeth Yr Wyddfa yn ymgais ar y cyd sy'n ymroddedig i reolaeth a chadwraeth gynaliadwy'r mynydd a'i dirweddau cyfagos. Mae'r bartneriaeth yn uno cymunedau lleol, busnesau, tirfeddianwyr, cadwraethwyr a chyrff cyhoeddus i ddiogelu'r amgylchedd naturiol, wrth feithrin economi a thwristiaeth y rhanbarth. Gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael â materion allweddol fel newid hinsawdd, effeithiau pobl, a gwarchod cynefinoedd, mae Partneriaeth Yr Wyddfa yn hyrwyddo mynediad cyfrifol i'r Wyddfa, gan ymgysylltu â chynulleidfa eang ac amrywiol drwy ei hymdrechion. Dros amser, mae rhai partneriaid wedi peidio â bod neu bellach yn amherthnasol, tra bod partneriaid newydd wedi ymuno â'r cydweithredu. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchiad o ymdarddiad cyfleoedd cydweithio newydd, a'r angen am berthnasoedd gweithio ffres i fynd i'r afael â heriau sy'n esblygu, gan sicrhau fod Yr Wyddfa'n wydn, a bod ei hetifeddiaeth eithriadol yn cael ei warchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)

Mae Eryri'n denu miliynau o ymwelwyr bob blwyddyn. Nod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw cadw a gwella'r harddwch naturiol, y bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal, hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau ei nodweddion arbennig a meithrin lles economaidd a chymdeithasol ei chymunedau.

Yn sefyll dros 3,000 troedfedd, Yr Wyddfa yw mynydd uchaf y Parc Cenedlaethol a heb os, yw'r copa mwyaf poblogaidd yn Eryri. Mae'r Wyddfa'n fynydd eiconig sy'n adnabyddus dros y byd i gyd, fwyaf adnabyddus am ei theithiau cerdded heriol ond mae'r mynydd eiconig hwn hefyd yn gartref i fywyd gwyllt prin a chlytwaith o ffermydd mynyddig.





## Cyngor Gwynedd

Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am ddarparu'r holl wasanaethau llywodraeth leol yn Sir Gwynedd, gan gynnwys addysg, gwaith cymdeithasol, gwarchod yr amgylchedd a'r rhan fwyaf o'r priffyrdd.

## Cyfoeth Naturiol Cymru

Ar flaen y gad yn yr her o sicrhau y gall Cymru oroesi a ffynnu yn wyneb yr argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd - yn cynghori a rheoleiddio diwydiant, ac yn gweithio gyda'n partneriaid i wella ansawdd ein dyfroedd, yr aer rydym yn ei anadlu, a'r tir a'r llefydd arbennig rydym yn eu rheoli'n gynaliadwy. O lifogydd i achosion o lygredd, mae bob amser yn barod i gadw pobl a bywyd gwyllt yn ddiogel rhag effeithiau digwyddiadau amgylcheddol, 24/7.

## Heddlu Gogledd Cymru

Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i ddarparu gwasanaeth o safon i bawb sy'n byw, gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru.

Mae galwadau i'r Timau Achub Mynydd yn cael eu cydlynu gan Ystafell Reoli Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r galw wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, felly mae'r heddlu'n gweithio'n agos gyda'r Parc Cenedlaethol a sefydliadau allweddol eraill, i helpu i ddatblygu a hyrwyddo negeseuon diogelwch wedi'u hanelu at bawb sy'n ymweld â'r ardal.

## Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn berchen ar 1,529 hectar o dir ar Yr Wyddfa, gan gynnwys Craflwyn, Hafod y Porth a fferm Hafod y Llan, ble y rheolir gwartheg duon Cymreig a defaid mynydd Cymreig ar gyfer cadwraeth, ynghyd â llety ar gyfer ymwelwyr a maes gwersylla. Mae Llwybr Watkin, y llwybr troed swyddogol cyntaf yn y wlad, yn rhan o rwydwaith o lwybrau y mae'n eu cynnal yn yr ardal. Yn ychwanegol, mae'r coetiroedd hynafol y mae'n gofalu amdanynt yn Nantgwynant o bwysigrwydd rhyngwladol fel rhan allweddol o goedwig law dymherus Cymru.

## Ystâd Baron Hill

Ystâd amaethyddol dan berchnogaeth breifat ar Yr Wyddfa ac ym Môn yw Ystâd Baron Hill. Mae fferm Gwastadanas yn ymestyn dros bedol Yr Wyddfa, o ben dwyreiniol Nantgwynant, hyd at y copa. Mae hefyd yn cynnwys Moel Berfedd a llethrau gorllewinol Cefn y Cerrig. Mae Gwastadanas wedi bod yn rhan o'r stad ers diwedd yr 17eg ganrif.

## Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)

Mae Undeb Amaethwyr Cymru yn cynrychioli ffermwyr, tenantiaid a thirfeddianwyr sydd yn ffermio yng Nghymru. Mae'r Undeb yn ceisio sicrhau'r dyfodol mwyaf ffyniannus a chynaliadwy posibl i'w aelodau, eu teuluoedd a'r cymunedau gwledig y maent yn byw ynddynt.





## NFU Cymru

Gweledigaeth NFU Cymru yw sector ffermio cynhyrchiol, proffidiol a blaengar sy'n cynhyrchu bwyd byd-enwog, sy'n hinsawdd gyfeillgar mewn amgylchedd a thirwedd sy'n darparu cynefinoedd i'n natur ffynnu. Maent am i fwyd a ffermio Cymreig ddarparu buddion economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol i holl bobl Cymru wrth gyflawni ei huchelgais ar gyfer amaethyddiaeth sero net erbyn 2040.

Mae'n aelod o Bartneriaeth Yr Wyddfa oherwydd ei rôl yn cefnogi amaethwyr yr ardal. Ei nod yw sicrhau bod y dirwedd naturiol o amgylch y mynydd yn cael ei reoli'n effeithiol, a'i barchu gan y cyhoedd wrth gefnogi cynhyrchiant bwyd, yr economi leol a bywyd gwyllt.

## CLA Cymru

Cymdeithas Tir a Busnes Gwlad (CLA) Cymru yw'r sefydliad aelodaeth ar gyfer rheolwyr tir a busnesau gwledig. Mae'n cynrychioli ac yn cynghori ei haelodau ar holl faterion gwledig, gan gynnwys amaethyddiaeth, twristiaeth, seilwaith a chynllunio.

## Cymdeithas Eryri

Mae Cymdeithas Eryri wedi gweithio ers dros bum deg mlynedd i warchod a gwella harddwch a nodweddion arbennig Eryri er budd pawb yn awr, ac yn y dyfodol.

## Plantlife Cymru

Plantlife yw llais byd-eang planhigion gwyllt a ffyngau. Trwy bartneriaeth Natur am Byth!, mae Plantlife yn arwain Prosiect Tlysau Mynydd Eryri, sydd â'r nod o newid ffawd 12 o rywogaethau creaduriaid di-asgwrn-cefn a phlanhigion alpaidd sydd o dan fygythiad eithriadol yn Eryri. Mae Plantlife wrth galon rhwydwaith byd-eang sy'n arwain y ffordd o ran achub planhigion a ffyngau.

## Trash Free Trails

Mae Trash Free Trails yn gymuned ryngwladol o feicwyr, rhedwyr a chrwydrwyr, sydd wedi'u huno gan ymrwymiad ar y cyd i warchod lleoedd gwyllt. Tra bod ei haelodau wedi'u gwasgaru ar draws y byd, mae'r Wyddfa â lle arbennig wrth galon hunaniaeth y sefydliad.

Mae'r Wyddfa yn cynrychioli ymdeimlad dwfn o bosibilrwydd—mynydd sy'n ysbrydoli, croesawu, a herio unigolion i gyrraedd eu llawn botensial. Fel cydnabyddiaeth i hyn, mae Trash Free Trails yn parhau i fod yn ymroddedig i roi yn ôl i'r dirwedd sy'n parhau i ysbrydoli ei genhadaeth.

## GwyrddNi

Mae GwyrddNi yn fudiad gweithredu hinsawdd cymunedol sy'n dod a phobl at ei gilydd ar draws Eryri i ddysgu, rhannu a gweithredu. Mae rhai o'i brosiectau yn gysylltiedig â'r Wyddfa ac wedi cynnwys clirio sbwriel, benthyg a thrwsio offer, dysgu am rywogaethau prin a hanes cymdeithasol a chasglu hen enwau caeau.



Rhagymadrodd

## Tîm Achub Mynydd Llanberis

Mae Tîm Achub Mynydd Llanberis yn darparu gwasanaeth achub brys gwirfoddol ar Yr Wyddfa a'r mynyddoedd cyfagos. Dyma'r tîm prysuraf ym Mhrydain gyda thua 60 o fynyddwyr lleol yn gwirfoddoli eu hamser i helpu eraill sydd wedi'u hanafu, neu sydd ar goll yn y mynyddoedd. Maent hefyd yn anelu tuag at addysgu cerddwyr a dringwyr o ran mynydda diogel, gan arwain at brofiadau cadarnhaol a diogel.

## Y Bartneriaeth Awyr Agored

Nod y Bartneriaeth Awyr Agored yw gwella bywydau drwy weithgareddau awyr agored, a hynny drwy ganolbwyntio ar ei strategaeth graidd, gweithio'n lleol a dysgu ar y cyd.

Fel sefydliad cenedlaethol bellach, mae ei gwreiddiau'n ddwfn yng ngogledd-orllewin Cymru—yn Eryri a'r ardal o amgylch Yr Wyddfa'n benodol. Yn ystod ei phymtheg mlynedd gyntaf, gwnaeth y gorau o'r adnoddau naturiol gwych sydd gan Wyddfa i'w gynnig, gan hybu, cefnogi ac uwch-sgilio trigolion i fwynhau'r awyr agored ac i wella eu hiechyd a lles.

## Y BMC

Y BMC yw'r corff cynrychioliadol ar gyfer dringwyr, cerddwyr bryniau a mynyddwyr. Drwy weithio ar brosiectau i warchod natur a thirweddau'r Wyddfa, rydym wedi ymrwymo i ddiogelu'r amgylcheddau hardd hyn er mwyn i genedlaethau'r dyfodol eu mwynhau, eu parchu a chael eu hanturiaethau eu hunain ynddynt.

## Eryri Actif

Mae Eryri Actif yn fenter gymdeithasol sy'n gweithio dros ddatblygiad strategol a chynaliadwy'r sector awyr agored ledled Cymru, gan gyflawni newid cadarnhaol a chydnabyddiaeth o'r sector ar lefel genedlaethol. Credant fod anturiaethau awyr agored, boed yn fawr neu'n fach, a chysylltu gyda byd natur, yn dda i ni, ond yn teimlo'n gryf y dylai'r gweithgareddau rhain ddigwydd heb fawr effaith ar y dirwedd a'r ecoleg ble maent yn digwydd.

## Prifysgol Bangor: Archifau a Chasgliadau Arbennig

Mae Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor yn cynnal casgliad o ddeunyddiau archifol ac ystod amrywiol o lenyddiaeth teithio hanesyddol, sy'n amlinellu profiadau hanesyddol, lleol a thwristaidd Eryri a'r Wyddfa. Mae'r rhain yn cynnwys llyfrau ymwelwyr o'r 19eg ganrif sydd yn y broses o gael eu digideiddio a'u gwneud yn hygyrch i'r cyhoedd.

## Prifysgol Caer

Mae'r prosiect ymchwil Olrhain Olion yn tarddu o brosiect rhyngddisgyblaethol a ariennir yn fewnol, sy'n cynnwys staff a myfyrwyr o feysydd Daearyddiaeth a'r Amgylchedd, a Chelf a Dylunio o Brifysgol Caer. Mae gan aelodau'r tîm ddiddordebau ymchwil helaeth yn nhirweddau diwylliannol gogledd Cymru ac arferion ffotograffiaeth tirwedd.



Rhagymadrodd

## Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth yw'r llyfrgell adnau cyfreithiol cenedlaethol fwyaf yng Nghymru, yn gartref i archif hanesyddol helaeth o lawysgrifau, ffotograffau a mapiau o'r Wyddfa ac Eryri, gan gynnwys casgliad o lyfrau ymwelwyr o'r 19eg ganrif.

## YHA (Lloegr a Chymru)

Mae YHA (Lloegr a Chymru) yn elusen sy'n ymroddedig i gysylltu pobl â'r awyr agored, natur a threftadaeth drwy gynnig hostelau mewn lleoedd rhyfeddol. Ar Yr Wyddfa, mae'r YHA yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi cerddwyr a dringwyr yn hostelau eiconic Pen-y-Pass, Snowdon Ranger a Llanberis.

## Cynllun Yr Wyddfa

Er nad yw'n statudol, mae'r Cynllun hwn yn cael ei ystyried yn hynod bwysig gan yr holl bartneriaid oherwydd arwyddocâd y mynydd.

Lansiwyd y Cynllun gwreiddiol yn 2018, ac wedi cynnydd sylweddol mewn rhai meysydd, mae sawl her yn parhau i fodoli. Mae'r Cynllun diweddar hwn wedi ei gyd-ddylunio gan fanylu ar sut fydd y Bartneriaeth yn cyflawni ei hymrwymiad dros y bum mlynedd nesaf, gan adeiladu ar ymdrechion blaenorol ac yn cynnwys addewid o'r newydd i'r mynydd. Mae'n amlinellu'r canlyniadau gorau posibl, yn nodi'r canlyniadau o fewn cyrraedd, ac yn cyflwyno cynllun gweithredu manwl gyda phrosiectau penodol a'r partneriaid perthnasol sy'n gyfrifol am eu cyflawni.

Mae'r ddogfen hon yn gweithredu fel fframwaith strategol ar gyfer cydweithio parhaus a rheolaeth gynaliadwy o'r Wyddfa.








## Ardal y Cynllun

Mae ardal y Cynllun i'w weld ar y map isod. Dyma'r rhanbarth sy'n cwmpasu massif Yr Wyddfa, wedi'i ffinio â ffyrdd yr A4086, yr A498, a'r A4085, gan eithrio Moel Eilio. Mae ffin ogledd-orllewinol ardal y Cynllun yn cyd-fynd yn fras gyda Llwybr Maesgwm, er ein bod yn cydnabod bod effeithiau'r prosiect yn ymestyn y tu hwnt i'r terfynau hyn.



Rhagymadrodd



## Adlewyrchu ar chwe blynedd o weithredu Cynllun Yr Wyddfa

Ers sefydlu Cynllun Yr Wyddfa yn 2018, mae Partneriaeth Yr Wyddfa wedi gweithredu trwy un o gyfnodau mwyaf heriol a wynebodd ein Parciau Cenedlaethol ac ardaloedd gwledig eraill erioed, yn sgil effeithiau pandemig Cofid-19.

Er yr heriau, mae'r Bartneriaeth wedi cyflawni'r mwyafrif o'r pwyntiau gweithredu gan brofi llwyddiannau nodedig. Ers 2018, mae'r Bartneriaeth wedi sefydlu ei hun fel fforwm hynod effeithiol i rannu gwybodaeth, adnabod cyfleoedd cydweithio, a rhannu adnoddau. Mae gan y Bartneriaeth brofiad helaeth o arwain prosiectau arloesol, ymdrin â heriau dwys ac o ymgysylltu â cymunedau amrywiol.

Wrth adlewyrchu ar y gwaith sydd wedi ei gyflawni, mae nifer o lwyddiannau yn dod i'r amlwg. Mae'r rhain yn cynnwys menter arloesol Yr Wyddfa Ddi-blastig, yn ogystal a'r gwelliannau sylweddol i rwydwaith Sherpa'r Wyddfa. Roedd ffigyrau 2023/24 yn dangos cynnydd aruthrol o 79% o deithwyr o'i gymharu â'r lefelau cyn-Cofid. Arweiniodd cyflwyno system rhagarchebu ym Mhen y Pass at leihad sylweddol mewn achosion o barcio anghyfreithlon yn yr ardal, tra bod peilot gwasanaeth bws ychwanegol y T10 yn Ogwen wedi ei ddatblygu fel gwelliant hirdymor i opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy'r rhanbarth. Mae dros fil o unigolion a pherchnogion busnes wedi eu hyfforddi drwy gynllun Llysgennad Eryri, gan gynorthwyo i rannu prif negeseuon y Bartneriaeth. Mae ap Llwybrau'r Wyddfa wedi ei lawrlwytho dros 33,000 o weithiau. Mae cynlluniau Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa a Charu Eryri yn mynd o nerth i nerth, tra bod datblygiad arloesol a chyffroes menter Yr Wyddfa Ddi-blastig yn ennill tir.

Mae Cofid-19 wedi trawsnewid nid yn unig ffyrdd o weithio a chyfarfod, ond gwelwyd newid ym mhatrymau ymweld yn ogystal. Mae'r newidiadau hyn wedi cael dylanwad eithriadol ar waith y Bartneriaeth, ac wedi gofyn am hyblygrwydd gyda'r gallu i addasu. Enghraifft o'r newid hyn ydyw fod mwy wedi darganfod lleoliadau oedd unwaith yn gymharol ddistaw, ond sydd bellach yn gweld nifer uwch o ddefnyddwyr, sydd wedi rhoi rhai o gymunedau o gwmpas ardal Yr Wyddfa o dan bwysau sylweddol. Er bod yr effeithiau yn rai cyfarwydd - megis llygredd golau a sŵn, sbwriel, campio gwyllt, cŵn yn rhydd, parcio anghyfreithlon - roedd dwysedd defnyddwyr ar gyfnodau yn chwyddo'r effeithiau i lefelau na welwyd o'r blaen. Daethpwyd hyn a heriau nad oedd llawer o sôn amdanynt cyn y pandemig i'r amlwg, megis cerbydau gwersylla yn aros dros nos mewn lleoliadau amhriodol, baw dynol ar Yr Wyddfa, nofio yn yr awyr agored a deheuad pobl i fod wrth ddŵr. Mae'r gweithgareddau rhain, yn enwedig mewn ardaloedd gwarchodedig bregus fel Afon Cwm Llan gyfochrog a'r Llwybr Watkin, wedi codi pryderon newydd nad oeddent yn bodoli cyn y pandemig.

Mae ymateb i'r materion parcio a thrafnidiaeth mewn modd amlasiantaethol wedi profi'n heriol iawn ar brydiau. Serch hynny, mae dull gweithredu ar y cyd effeithiol wedi ei ddatblygu a'i gryfhau, sydd wedi arwain at welliannau megis y cynnydd mewn defnydd o wasanaeth Sherpa'r Wyddfa a'r lleihad mewn achosion o barcio anghyfreithlon ym Mhen y Pass. Mae'r newidiadau cadarnhaol rhain wedi eu profi ar lawr gwlad mewn amser cymharol fyr.

Mae gweithio gyda'r ychydig adnoddau sydd ar gael yn her sy'n aml yn golygu fod gweithredu rhai prosiectau yn cymryd mwy o amser nag yr hoffem. Serch hynny, mae'r hyn sydd wedi ei gyflawni dros y chwe blynedd ddiwethaf yn achos i'w ddathlu, ac yn gosod sylfaen gref ar gyfer parhau gyda'r gwaith hollbwysig hwn.

## 03 Astudiaeth achos #1 - Caru Eryri



Yn ystod tymor 2024, casglodd tîm ymroddedig o 123 o wirfoddolwyr 1.4 tunnell o sbwriel oddi ar Yr Wyddfa.

Ers ei sefydlu yn 2020, mae prosiect Caru Eryri wedi bod yn enghraifft arweiniol o gadwraeth ac ymgysylltu ag ymwelwyr o amgylch Yr Wyddfa. Mae'r rhaglen wirfoddoli wedi ennill clod cenedlaethol, gan ennill cydnabyddiaeth gan Cadwch Brydain yn Daclus a Gwobr Dewi Sant fawreddog. Bob blwyddyn, mae Caru Eryri wedi ehangu ei mentrau, gan gyflwyno llwybrau newydd ar gyfer mwy o bresenoldeb ar lawr gwlad, gan weithio mewn partneriaeth â Phobl i Bobl i gynnwys ffoaduriaid, a chynyddu dyddiau cynnal a chadw llwybrau a glanhau traethau. Drwy gefnogi ymgyrchoedd proffil uchel fel Spring Clean Cymru a Real 3 Peaks, mae'r rhaglen wedi cynyddu ei heffaith ac wedi ennyn cyhoeddusrwydd cenedlaethol.

Mae ymgysylltu ag ymwelwyr yn ffocws allweddol, yn enwedig ar y llwybrau prysuraf fel Llwybr Llanberis a Llwybr Watkin, gan sicrhau profiad cadarnhaol i bawb ei fwynhau. Mae'r prosiect hefyd yn ymfalchïo mewn presenoldeb gweithredol ar y cyfryngau cymdeithasol, gan godi ymwybyddiaeth am effeithiau niweidiol taflu sbwriel ar ecosystem fregus a'r materion sy'n ymwneud â llygredd untro. Mae llwyddiant Caru Eryri yn dyst i ymroddiad ei wirfoddolwyr, ei harweinwyr gwirfoddol, ac ymdrechion cydweithredol arweinwyr mynydd lleol a sefydliadau partner.






## Astudiaeth achos #2 - Tlysau Mynydd Eryri

**Gwella tynged 12 rhywogaeth arctig-alpaidd yn Eryri**

Mae Tlysau Mynydd Eryri yn un o nifer o brosiectau sy'n rhan o raglen Natur am Byth!. Natur am Byth! yw'r fenter adfer natur fwyaf a welwyd erioed yng Nghymru ac yn bartneriaeth rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a naw elusen gadwriaethol. Mae'n cael ei ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru.

Dan arweiniad Plantlife Cymru, nod Tlysau Mynydd Eryri yw gwella ffawd 12 rhywogaeth arctig-alpaidd yn Eryri, gan gynnwys 10 planhigyn a dau fath o anifail di-asgwrn cefn (infertebrat), yn ogystal â'u cynefinoedd. Ceir tri o'r planhigion hyn a'r ddau infertebrat ar Yr Wyddfa. Ers dechrau'r prosiect hwn, rydym wedi cynnal arolygon manwl i fapio dosbarthiad y rhywogaethau hyn ar y mynydd a nodi'r risgiau sy'n eu hwynebu.



Yr Wyddfa yw'r unig le ym Mhrydain ble ellir gweld un o'r rhywogaethau rhain, chwilen yr enfys, sydd mewn perygl difrifol. Mae'r chwilen yn cael ei heffeithio gan ddefaid yn pori'n rhy gynnar yn y tymor, sy'n arwain at yr wyau y maent wedi eu dodwy ar flaenau llafnau glaswellt, gael eu bwyta. Mae'r cynefin ble tyfir ei bwyd dewisol, sef y teim gwyllt, angen ei bori gan ddefaid er mwyn ei gadw o dan reolaeth ac osgoi sefydliad llystyfiant mwy dominyddol.

Mae'r prosiect yn cydweithio â Rheilffordd Yr Wyddfa ac ystod o bartneriaid eraill, gan gynnwys ffermwyr ar y mynydd, i dreialu pori rheoledig mewn rhai mannau—dim ond tan fydd wyau'r chwilen wedi deor. Mae'r fenter hon yn cynnig gobaith am ddyfodol disglair i breswylydd mwyaf lliwgar Yr Wyddfa.

# Astudiaeth achos #3 - Sherpa’r Wyddfa




Mae’r niferoedd o deithwyr sy’n gwneud y mwyaf o wasanaethau bws Sherpa’r Wyddfa wedi cynyddu’n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.

Ers ail-ddylunio a lansio’r gwasanaethau ar eu newydd wedd yn 2022, mae nifer teithwyr ar rwydwaith Sherpa’r Wyddfa wedi cynyddu’n gyson, gyda chynnydd o 79% o’i gymharu â’r cyfnod cyn Covid.

Yn wir, yn ystod haf 2024, roedd y niferoedd wedi cyrraedd lefelau uchaf erioed, gyda 72,296 o bobl wedi teithio ar rwydwaith bysiau Sherpa’r Wyddfa yn ardal Eryri ym mis Awst 2024. Mae’n amlwg felly fod y daith ar y Sherpa yn atyniad bob tywydd yn ei hun. Mae’n llai o ffws ar y bws – gadewch rhywun arall i boeni am y gyrru a’r parcio!

Mae gwasanaeth newydd Sherpa’r Wyddfa wedi sicrhau gwelliannau enfawr drwy gynnig gwasanaeth rheolaidd am dros 12 awr o’r dydd yn ystod oriau brig, cysylltu’n uniongyrchol â phrif orsafoedd trenau a darparu dull cost cyson i gwsmeriaid.

Mae’r gwasanaethau Sherpa yn cysylltu’n hwylus gyda gwasanaethau bws lleol a gwasanaethau’r TrawsCymru mewn lleoliadau megis Porthmadog, Caernarfon, Bangor, Llanberis a Betws y Coed sydd yn cynnig ffordd wych o deithio i, o ac o fewn Eryri. Mae’n cyfuno teithiau sy’n galluogi trigolion Gwynedd i wneud teithiau dydd-i-ddydd pwysig, gydag adnodd teithio defnyddiol i bobl sy’n ymweld â’r ardal trwy gysylltu’r prif lwybrau cerdded, meysydd parcio, pentrefi ac atyniadau’r ardal.

Mae Sherpa’r Wyddfa wedi ei gydnabod mewn sawl gwobr trafnidiaeth ers yr ail-lansiad, gan dderbyn cydnabyddiaeth yng ngwobrau Trafnidiaeth a gwobrau Bws y Deyrnas Gyfunol. Mae’r llwyddiant yma yn dyst i’r hyn y gellir ei gyflawni drwy gydweithio a chynllunio llwybrau sy’n diwallu anghenion pobl leol a’r rhai sy’n ymweld â’r ardal.








Mae gwasanaeth Sherpa’r Wyddfa yn cael ei redeg gan Gyngor Gwynedd ar y cyd â Thrafnidiaeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Pharc Cenedlaethol Eryri.

www.sherparwyddfa.cymru

# Astudiaeth achos #4 - Lisa Eurgain Taylor



## Cynrychioli treftadaeth ddiwylliannol fodern Yr Wyddfa ac Eryri

Mae Lisa Eurgain Taylor, artist cyfoes o Gymru, wedi'i hysbrydoli gan harddwch naturiol bro ei mebyd, yn enwedig ei thirweddau amrywiol, gan gynnwys tirlun eiconig Yr Wyddfa. Mae ei gwaith yn portreadu nodweddion deinamig y tirweddau hyn, gan bwysleisio'r berthynas rhwng yr amgylchedd naturiol a'i arwyddocâd yng nghyd-destun Cymru. Trwy ei defnydd bywiog o liw, gwaith brwsh gweadog, a chyfansoddiadau atmosfferig, mae celf Taylor yn cyfleu harddwch a chymhlethdod y lleoedd eiconig hyn.

Mae ei dull unigryw o ddarlunio'r rhanbarth yn adlewyrchiad o'i chysylltiad dwfn â'r tir. Mae harddwch dramatig Eryri wedi ysbrydoli artistiaid ers amser maith, gan arlunwyr o'r 18fed a'r 19eg ganrif megis J.M.W. Turner a Richard Wilson, a gipiodd golygfeydd trawiadol o'r ardal, i arlunwyr mwy modern fel Kyffin Williams. Chwaraeodd Williams, sy'n enwog am ei bortreadau gweadog o fynyddoedd a dyffrynnoedd Eryri, ran bwysig wrth lunio cynrychiolaeth artistig fodern y rhanbarth. Mae Taylor yn dod â thynerwch gyfoes i'w gwaith, gan ganolbwyntio ar gydadwaith golau, cysgod a lliw i gyfleu tirweddau materol ac emosiynol yr ardal.







Mae celf Taylor yn archwiliad o dirwedd, gyda ffocws arbennig ar Yr Wyddfa ac Eryri. Trwy ei gwaith, mae'n cyfrannu at y sgwrs artistig ehangach sy'n ymwneud â thirwedd Cymru, gan adlewyrchu ei phwysigrwydd a'i chyseiniant parhaus heddiw. Mae ei phaentiadau yn gwahodd gwylwyr i ailgysylltu â lle sy'n parhau i fod mor ystyrlon heddiw ag y bu ers cenedlaethau.

**www.lisaeurgaintaylor.com** **instagram:** lisa.eurgain.celf.art **tiktok:** lisaeurgaintaylor

## Astudiaeth achos #5 - Amddiffyn y dirwedd

### Gweithgareddau glanhau hanesyddol yng nghyffiniau Clogwyn y Garnedd

Ym mis Medi 2024, trefnodd Cyngor Mynydda Prydain (BMC), mewn cydweithrediad â Trash Free Trails, Plantlife, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a Chymdeithas Eryri, ymdrech lanhau unigryw yng nghyffiniau Clogwyn y Garnedd. Yn anffodus, mae'r gylïau hyn yn gweithredu fel trapiau naturiol ar gyfer sbwriel sy'n cael eu chwythu neu eu gollwng o gopa'r Wyddfa.

Mae'r ardal nid yn unig yn dirwedd drawiadol ond hefyd yn lloches hanfodol i blanhigion arctig-alpaidd ac infertebratau—rhywogaethau sydd eisoes dan fygythiad oherwydd newid hinsawdd wrth i'w cynefinoedd grebachu. Yn ogystal, mae'r clogwyni yn boblogaidd ymhlith dringwyr gaeaf, felly mae prosiectau presennol y BMC yn anelu at leihau eu heffaith ar yr ecosystem fregus hon. Am y tro cyntaf, hyd y gwyddom, cafodd cyffiniau'r




©BMC



clogwyn uchaf ei lanhau'n drylwyr. Fe wnaeth tîm o dechnegwyr mynediad rhaff proffesiynol abseilio o leoliad ger y copa i symud sbwriel o'r gylïau. Cafodd peth o'r gwastraff ei gasglu a'i gludo ar y trên, tra bod eitemau eraill yn cael eu gostwng yn ofalus i'w hadalw gan ail dîm.

Ar yr ail ddiwrnod, aeth grŵp o 40 o wirfoddolwyr i fyny'r clogwyn o'r gwaelod, gan glirio ac arolygu'r llygredd wrth iddynt weithio. Tynnwyd cyfanswm o 2,765 eitem o wyneb y graig —809 ohonynt yn gynwysyddion diod, gyda Lucozade fel y brand mwyaf cyffredin.

Y tu hwnt i waredu gwastraff, nod yr arolwg yw cyfrannu at ymchwil amgylcheddol ehangach tra'n gweithredu fel galwad dros newid gwleidyddol. Un o brif ffocws y fenter hefyd oedd addysgu—annog ymwelwyr mynydd nid yn unig i fynd â'u gwastraff adref, ond i ystyried effaith amgylcheddol yr hyn maen nhw'n ddod hefo nhw i'r mynyddoedd yn y lle cyntaf.

Hoffai'r BMC ddiolch i'r holl wirfoddolwyr a phartneriaid a gymerodd ran yn y gwaith ac yn gobeithio ailadrodd y fenter yn 2025.

**Tom Carrick, BMC**



©BMC

# Astudiaeth achos #6 - Olrhain Olion

University of Chester

## Newid tirwedd Yr Wyddfa

Mae Olrhain Olion yn brosiect ymchwil rhyngddisgyblaethol a gydarweinir gan Dr Daniel Bos a Dr Cian Quayle (Prifysgol Caer). Mae'r prosiect wedi archwilio cyfarfyddiadau twristaidd hanesyddol a chyfoes â'r Wyddfa, i ystyried beth all y gorffennol ei ddweud wrthym am bresennol, a dyfodol y mynydd. Mae'r prosiect yn ddatblygiad o ymchwil hanesyddol Bos, i lyfrau ymwelwyr o'r 19eg ganrif oedd wedi'u lleoli yng nghytiau'r copa, ble cofnododd ymwelwyr eu profiadau o gerdded i fyny'r Wyddfa. Mae'r llyfrau ymwelwyr hyn yn rhoi cipolwg ddiddorol ar gymhellion twristiaid, sut y gwnaethant brofi'r dirwedd, ac yn dogfennu hanes cynnar twristiaid wrth iddynt gwrdd â'r mynydd.

Mewn cydweithrediad ag artistiaid a ffotograffwyr (Jane Evans, Eleanor O'Grady, Emma Petruzzelli, Alan Summers), mae'r tîm wedi mynd ati i olrhain siwrneiau'r ymwelwyr yn yr 19eg ganrif. Drwy ddehongli testunau a delweddau hanesyddol, mae'r gwaith yn ail-ddychmygu tirwedd y mynydd heddiw, gan fyfyrio ar yr heriau amgylcheddol, economaidd-gymdeithasol a diwylliannol cyfoes ehangach sy'n wynebu ei ddyfodol cynaliadwy. Mae'r gwaith wedi arwain at gyfres o arddangosfeydd cyhoeddus yng Ngofod Celf Gyfoes Caer (Oriel CASC) (2023), Amgueddfa Grosvenor, Caer (2024), ac yn fwy diweddar, mewn cydweithrediad ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yng Nghanolfan Groeso Betws y Coed (2025-26). Mae detholiad o waith Dr. Cian Quayle hefyd wedi cael ei arddangos fel rhan o gyfres o osodiadau ar ffurf hysbysfyrddau yng Nglannau Dyfrdwy (2024-25).

Un o nodau canolog y prosiect yw hyrwyddo cyfleoedd i wahanol gynulleidfaoedd ymgysylltu â hanes y mynydd a'r diwylliant a'r iaith Gymraeg. Mewn partneriaeth gyda Chasgliad Archifau Arbennig Prifysgol Bangor, mae cyfres o lyfrau ymwelwyr wedi cael eu hadfer a'u digideiddio. Bydd y rhain ar gael i'r cyhoedd ar-lein, gan alluogi mynediad at gynulleidfaoedd ehangach. Mae'r prosiect hefyd wedi cynnal cyfres o sgyrsiau cyhoeddus, gweithdai, a dangosiad o'r ffilm ddrama Gymraeg Creigiau Geirwon. Cafwydd gweithdy gyda'r cyn-Fardd Plant Cymru, Casia Wiliam, yng







©University of Chester

Nghanolfan Groeso Betws y Coed, oedd yn rhoi'r cyfle i blant ysgol gynradd leol gynhyrchu darluniau a barddoniaeth am y mynydd, gan gymryd ysbrydoliaeth o ddyfyniadau o'r llyfrau ymwelwyr hanesyddol. Gall ymwelwyr â'r arddangosfeydd hefyd adael eu marc drwy ysgrifennu eu barn yn y llyfr ymwelwyr cyfoes, gan wella dealltwriaeth o'r esblygiad yn y profiadau ac agweddau tuag at y mynydd. Bydd yr adborth hwn wedyn yn bwydo i mewn i weledigaeth strategol Partneriaeth Yr Wyddfa wrth ddathlu treftadaeth ddiwylliannol y mynydd. Bydd cais awgrymedig i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cefnogi arddangosfeydd, gweithdai, digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned, hanesion llafar, a chadw a digideiddio rhagor o lyfrau ymwelwyr.

Am fwy o wybodaeth am y prosiect, cysylltwch â Dr Daniel Bos (d.bos@chester.ac.uk), neu sicrhewch eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf trwy ddilyn y cyfrif instagram. **instagram:** retracing_footsteps

## Astudiaeth achos #7 - Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa

Bob blwyddyn, mae ein tîm ymroddedig o Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa allan ar y mynydd bob penwythnos a chanol wythnos rhwng Ebrill a Thachwedd. Maent yn rhoi cyngor arbenigol a gwybodaeth hanfodol i ymwelwyr am ddiogelwch mynydd, yn casglu swm sylweddol o sbwriel oddi ar y prif lwybrau, ac yn cefnogi gwasanaeth Wardeinio a Mynediad y Parc Cenedlaethol gyda gwaith cynnal a chadw llwybrau.

Mae'r cynllun wedi datblygu'n aruthrol ers ei lansio yn 2013, gyda thîm cyfredol o dros 60 o unigolion profiadol iawn wedi'u hyfforddi, allan ar y mynydd trwy gydol tymor yr haf. Mae'r hyn a ddechreuodd ar Yr Wyddfa bellach wedi ehangu i gynnwys cyfleoedd gwirfoddoli ychwanegol fel rhan o'r cynllun ar Gader Idris yn ogystal â gyda'r fan wybodaeth.

Yn ystod 2024 ar Yr Wyddfa, roedd 47 o unigolion ar batrôl am gyfanswm o 103 o ddyddiau cronnol, sef cyfanswm o 4,338 awr, ac amcangyfrifir eu bod wedi cynghori dros 4,000 o ymwelwyr.

Roedd y fan wybodaeth hefyd wedi'i lleoli yn Llanberis, Nantgwynant, a Rhyd Ddu am gyfanswm o 36 diwrnod drwy gydol y tymor. Mae'r hwb symudol hwn yn adnodd hanfodol i'r cyhoedd, gyda gwirfoddolwyr ymroddedig yn darparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth hanfodol. Amcangyfrifir bod 1,000 o unigolion ychwanegol wedi elwa o arbenigedd a chymorth ein gwirfoddolwyr, a oedd wrth law i ateb cwestiynau a chynnig gwybodaeth. Er bod y rhan fwyaf o'r gwirfoddolwyr yn canolbwyntio ar waith mynydd uniongyrchol, mae'r rhai nad ydynt yn gallu bod allan ar y mynydd, neu sy'n well ganddynt aros ar dir is, yn dal i chwarae rhan hanfodol, gan ddarparu cefnogaeth i ymwelwyr a rhannu eu gwybodaeth werthfawr o'r fan.

Mae'r gwirfoddolwyr hefyd yn wyddonwyr dinasyddol, ac yn 2024, fe wnaethant gofnodi mwy o ddata sbwriel nag erioed o'r blaen—gan gasglu 1,157.69 kg. Cludwyd yr holl sbwriel hwn i lawr o'r mynydd ac fe waredwyd ag o yn gyfrifol gan y tîm.

Mae'r cynllun yn rhoi cyfleoedd amrywiol i wirfoddolwyr, fel bod yn rhan o dîm, cwrdd â phobl newydd, ehangu eu profiad mynydda, a rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg newydd ymarfer. Mae eu gwaith yn rhan annatod o greu amgylchedd mwy diogel ar y mynydd a chyflawni nodau'r Cynllun hwn.



## Astudiaeth achos #8 - Yr Wyddfa Ddi-blastig



Mae prosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig yn adlewyrchu ymrwymiad Awdurdod y Parc Cenedlaethol i ddiogelu'r Wyddfa rhag sbwriel ac effeithiau niweidiol microblastigau. Cyflwynodd y rhaglen beilot arloesol hon ymyriadau newydd i leihau sbwriel a meithrin newid ymddygiad trwy wreiddio ymddygiad amgylcheddol sy'n ystyriol o'r mynydd.

Dros ddwy flynedd, aeth y prosiect i'r afael â'r her sbwriel drwy ddulliau gweithredu amlochrog:

- Ymgysylltu â busnesau: Aethpwyd ati i sefydlu cynllun busnes wedi'i deilwra, gan greu rhwydwaith o hyrwyddwyr cynaliadwyedd yn y rhanbarth.
- Cydweithio academaidd: Gan weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor, cynhaliodd y prosiect arbrofion seiliedig ar seicoleg ar y mynydd, gan ddefnyddio sgriptiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ymgysylltu ag ymwelwyr a hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol.
- Grymuso ieuenctid: Trwy gynnal COPA1, uwchgynhadledd ieuenctid amgylcheddol gyntaf Yr Wyddfa, gwahoddodd y prosiect gyfranogwyr ifanc i feddwl am atebion creadigol am sut i gael gwared â'r sbwriel drwy greu eu gweledigaethau eu hunain.
- Ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd: Gan gymryd ysbrydoliaeth o lên gwerin Cymru a dilyn fframweithiau cyfathrebu a argymhellwyd gan Brifysgol Bangor, lansiwyd ymgyrchoedd effeithiol i lywio ac ysbrydoli'r cyhoedd.

Bydd y ddealltwriaeth sy'n deillio o fenter Yr Wyddfa Ddi-blastig yn siapio strategaeth sbwriel gynhwysfawr Parc Cenedlaethol Eryri. Er nad oedd modd cyrraedd y statws ffurfiol "Di Blastig" yn ystod oes y prosiect pan fu'n cael ei ariannu, mae ei waith creiddiol wedi gosod sylfaen gref ar gyfer gwneud cynnydd parhaus. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn parhau i fod yn ymroddedig i wireddu'r dynodiad hanfodol hwn ar gyfer Yr Wyddfa.

# Astudiaeth achos #9 - Plas Coch

## Darparu lletygarwch rhagorol i bobl anturus ym mynyddoedd Eryri

Pan gymeron ni'r awenau yng Ngwesty Plas Coch yn haf 2019, doedden ni ddim wedi llwyr werthfawrogi pa mor arwyddocaol yw ein sefyllfa, a ninnau ddim ond ychydig funudau i ffwrdd o ddechrau Llwybr Llanberis i fyny'r Wyddfa. Mae mwyafrif helaeth o'n gwesteion yn ymweld â'r mynydd eiconig hwn.



Roedd amseriad lansiad rhaglen Llysgennad Eryri ym mis Tachwedd 2021 yn berffaith, fe gofrestrom yn syth a chyflawni'r modiwlau amrywiol ar-lein. Fe wnaeth gweithio drwy'r rhaglen i ennill statws Llysgennad Aur, wella ein gwybodaeth am Eryri yn fawr, tra'n rhoi gwybodaeth i ni am yr amgylchedd, ei diwylliant a'i hanes. Gyda'r diweddariadau blynyddol, mae'r rhaglen wedi rhoi'r hyder a'r gallu i ni rannu yr hyn rydy' ni wedi'i ddysgu gyda'n gwesteion. Mae hyrwyddo mwynhad cyfrifol, diogelwch a dealltwriaeth o Eryri yn ganolog i'n Datganiad Cenhadaeth ym Mhlas Coch.

Yn yr un modd, ni allai'r bore y cyrhaeddodd Alec ein drws ffrynt, i egluro i ni am fenter newydd Yr Wyddfa Ddi-blastig, fod wedi'i amseru'n well mewn gwirionedd. Y diwrnod cynt, roeddem wedi penderfynu canslo ein biniau ailgylchu, gwastraff a bwyd masnachol, wedi penderfynu rhoi'r gorau i ddarparu nwyddau wedi'u lapio â phlastig yn y gwesty ac i wella ein harferion lleihau, ailddefnyddio a chompostio. Gwrandawom yn astud ar Alec ac





esbonio sut yr ydym yn bwriadu, law yn llaw ag Eryri i leihau plastigau untro.

Nawr, ar ôl ennill statws Di-blastig Lefel Aur, rydym yn parhau i leihau'r defnydd o blastig. Rydym wedi disodli pob plastig untro gyda dewisiadau eraill sy'n gynaliadwy ac yn gyfeillgar i'r amgylchedd, megis disodli sachau plastig untro o laeth UHT am laeth ffres a jygiau. Mae ein pecynnau bwyd di-blastig yn boblogaidd iawn. Rydym yn darparu creision di-blastig, brechdanau a chacennau sydd wedi'u lapio â phapur a photeli dŵr metel a fflasgiau. Mae gwesteion yn barod i gydweithredu trwy ddod â'u holl sbwriel yn ôl i'w ailgylchu, ei ailddefnyddio a'i gompostio.

Mae'r adborth a gawn gan westeion yn gyson yn amlygu mai y cyffyrddiadau bach hyn ym Mhlas Coch y maen nhw'n ei werthfawrogi, sy'n gwneud gwahaniaeth ac yn sicrhau eu bod yn dychwelyd atom eto. Mae cefnogaeth Eryri wedi bod yn hanfodol i'n helpu i gyflawni a hyrwyddo'r newidiadau hyn.

**Fiona a Rob Nicholson, Plas Coch.**



# 04 Cyflwr Yr Wyddfa

## Dynodiadau

### Parc Cenedlaethol Eryri

Dynodwyd Parc Cenedlaethol Eryri yn 1951 ac mae'n ymestyn dros 2,142 cilomedr sgwâr yng ngogledd-orllewin Cymru. Mae'n enwog am ei dirweddau trawiadol, gan gynnwys Yr Wyddfa, ac mae'n cynnig ystod amrywiol o ecosystemau, o gopaon garw i gymoedd tawel. Mae'r Parc yn ecolegol arwyddocaol ac yn gartref i rywogaethau prin a chynefinoedd unigryw. Yn ogystal â'i harddwch naturiol, mae gan Eryri dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog, gydag olion hynafol, cestyll a chysylltiad dwfn gyda hunaniaeth Gymreig. Dan reolaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, mae dynodiad y Parc yn sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu drwy bolisïau cadwraethol a rheoliadau cynllunio. Mae hyn yn cynnwys Cynllun Datblygu Lleol Eryri, sy'n darparu canllawiau ar gyfer cynllunio a datblygu defnydd tir cynaliadwy yn y Parc. Yn ogystal, mae Cynllun Eryri, y strategaeth gyffredinol ar gyfer rheoli'r Parc, yn nodi gweledigaeth hirdymor sy'n blaenoriaethu amddiffyn ei adnoddau naturiol a diwylliannol, wrth hyrwyddo defnydd a datblygiad cynaliadwy. Mae'r cynlluniau hyn yn helpu i arwain rheolaeth gyfrifol o'r Parc, gan sicrhau bod ei werthoedd amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd yn cael eu cynnal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Gwarchodfa Awyr Dywyll Eryri

Mae'r Wyddfa wedi'i lleoli yng Ngwarchodfa Awyr Dywyll Eryri, dynodiad sydd â'r nod o liniaru llygredd golau i warchod amgylcheddau nosol naturiol. Mae'r warchodfa hon yn un o'r lleoliadau gorau yn y DU ar gyfer arsylwi seryddol, gan gynnig lefelau eithriadol o isel o olau artiffisial ac awyr glir sy'n darparu golygfeydd rhyfeddol o ffenomenau wybrennol, gan gynnwys y sêr, y Llwybr Llaethog, a digwyddiadau seryddol eraill. Mae'r statws Gwarchodfa Awyr Dywyll yn diogelu amgylchedd naturiol y rhanbarth drwy leihau llygredd golau, yn ogystal â chefnogi ymchwil wyddonol mewn seryddiaeth ac astroffotograffeg. Mae'r dynodiad hefyd yn chwarae rhan hanfodol mewn gwarchod bioamrywiaeth trwy gynnal cylchredau naturiol bywyd gwyllt nosol, tra gallai'r gostyngiad mewn golau artiffisial wella iechyd pobl drwy hyrwyddo patrymau cwsg gwell, a lleihau'r risg o broblemau iechyd sy'n gysylltiedig â golau. Yn ogystal, mae'n cyfrannu at yr economi leol trwy ddenu ymwelwyr sydd â diddordeb mewn seryddiaeth a gweithgareddau eraill o'r fath.





### Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

Mae'r ardal o amgylch Yr Wyddfa, gan gynnwys ei llethrau, wedi'i dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) oherwydd ei arwyddocâd gwyddonol a biolegol eithriadol. Mae'r dynodiad hwn yn darparu gwarchodaeth gyfreithiol i'r safle, sy'n gartref i amrywiaeth o rywogaethau planhigion prin, yn ogystal â chynefinoedd unigryw ac ecolegol sensitif. Mae diogelu'r ardal hon yn hanfodol ar gyfer cynnal bioamrywiaeth a chefnogi ymchwil wyddonol barhaus ym meysydd ecoleg, cadwraeth a gwyddor amgylcheddol.

### Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)

Mae'r Wyddfa yn rhan o Ardal Gadwraeth Arbennig Eryri (ACA), dynodiad Ewropeaidd o fewn rhwydwaith Natura 2000 o ardaloedd gwarchodedig. Nod y dynodiad hwn yw diogelu cynefinoedd a rhywogaethau mynydd hanfodol, gan gynnwys y rhai a geir mewn rhostir ac ecosystemau alpaidd. Mae diogelu'r ardaloedd hyn yn hanfodol er mwyn gwarchod bioamrywiaeth unigryw, gan gefnogi dyfalbarhad rhywogaethau prin o blanhigion ac anifeiliaid, a chynnal cyfanrwydd amgylcheddau mewn uchelfannau sensitif. Mae'r dynodiad ACA yn cynnig gwarchodaeth gyfreithiol i leihau effaith pobl a hyrwyddo rheolaeth hirdymor er mwyn cynnal iechyd ecolegol.

### Gwarchodfa Natur Genedlaethol Yr Wyddfa

Fe'i datganwyd yn ffurfiol ym 1966 yn rhychwantu 1,677 hectar ac yn eiddo i dri thirfeddiannwr, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r safle'n cynnal amrywiaeth eang o gynefinoedd, gan adlewyrchu'r uchder a'r tir amrywiol. Mae'r rhain yn amrywio o goetiroedd llydanddail cysgodol i'r rhostir ar y llethrau isaf, i gribau a chopaon agored, a chlogwyni uchel sy'n cynnal rhywogaethau planhigion mynyddig ac arctig-alpaidd—yr ystyrir eu bod ar gyrion eu hystod yng Nghymru, Prydain ac Ewrop.

## Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Yr Wyddfa yn cynnal dros 15 o rywogaethau a chynefinoedd sydd wedi'u gwarchod.



**Coedwigoedd glaw Celtaidd** - Mae'r coedwigoedd hyn yn gynefinoedd hynod brin a chredir eu bod dan fwy o fygythiad na choedwigoedd glaw trofannol.




**Y gwladwr Cymreig** – Mae'r Wyddfa yn un o'r ychydig fannau yng ngwledydd Prydain ble y gallwch weld y rhywogaeth hon.



**Chwilen yr enfys** – Yr Wyddfa yw'r unig le yng ngwledydd Prydain ble y gallwch ei gweld.




**Rhostir** - Cynefinoedd rhostir sych a gwlyb sydd â phwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol.



**Brwynddail y mynydd/Lili'r Wyddfa** - Eryri yw'r unig le yng ngwledydd Prydain ble mae'r planhigyn yma'n tyfu.




**Tormaen Serennog** - Mae planhigion arctig-alpaidd yn un o nodweddion pwysicaf Gwarchodfa Natur Genedlaethol Yr Wyddfa.






## Map yn dangos y dynodiadau



## Demograffeg defnyddwyr


38% | 62% | 20% | 74% | Cymraeg 7%

| Rhanbarthau Lloegr | # | % |
|---|---|---|
| Gogledd-ddwyrain | 29 | 2% |
| Gogledd Orllewin | 200 | 15% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 128 | 10% |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 73 | 5% |
| De-ddwyrain | 166 | 12% |
| De Orllewin | 139 | 10% |
| Llundain Fwyaf | 122 | 9% |
| Dwyrain Anglia | 66 | 5% |
| Swyddog Efrog a'r Humber | 61 | 5% |





Cyflwr Yr Wyddfa

### Math o ddefnyddiwr




### Ble maen nhw'n aros?




Ffynhonnell: Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2024, APCE

## Ystadegau monitro defnyddwyr

Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sawl cownter wedi eu lleoli mewn mannau strategol ar draws y Parc ac mae'r data ymysg y mwyaf cynhwysfawr o'r data sy'n cael ei gasglu gan unrhyw Barc Cenedlaethol ym Mhrydain.

Mae'r data yn gymorth ar gyfer nodi llwybrau poblogaidd ac i ddyrannu adnoddau digonol ar gyfer eu cynnal a'u rheoli yn ogystal â galluogi'r Awdurdod i ragweld gofynion staffio ar gyfer ardaloedd fel Yr Wyddfa. Mae'r data hefyd yn ddefnyddiol i sefydliadau eraill ac fe'i defnyddir i asesu tueddiadau ac i ddylanwadu ar benderfyniadau e.e. polisïau trafnidiaeth gyhoeddus a pharcio.

Yn anffodus cafwyd problemau technolegol gyda rhai o'r cownteri ar lwybrau'r Wyddfa yn ystod 2023. Mae hyn wedi arwain at fylchau sylweddol yn y data felly nid yw'r flwyddyn wedi ei chynnwys yma.


## Ymwasgariad defnyddwyr dros y flwyddyn









## Cyfanswm blynyddol 2017 - 2022




Ffynhonnell: Ffigyrau monitro ymwelwyr, APCE

## Y gymhariaeth rhwng cyfanswm misol defnyddwyr cyn lansio Cynllun Yr Wyddfa a'r presennol




Ffynhonnell: Ffigyrau monitro ymwelwyr, APCE



Cyflwr Yr Wyddfa



## Ystadegau fesul llwybr

Mae chwe phrif lwybr i gopa'r Wyddfa, pob un â'i nodweddion a'i heriau unigryw. Mae gwahanol lwybrau yn apelio at wahanol unigolion a grwpiau gyda ffactorau megis golygfeydd naturiol, cyngor gan eraill, a phellter y llwybr o'u cartref yn dylanwadu ar ddewis defnyddwyr.

**35%** yn dewis llwybr penodol oherwydd eu bod eisiau mwynhau golygfeydd naturiol

**11%** wedi dewis llwybr oherwydd ei fod yn haws neu'n fwy diogel (na'r llwybrau eraill)

**5%** yn dewis y llwybr agosaf i'w cartref


**Ffynhonnell: Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2024, APCE**





Cyflwr Yr Wyddfa

## Y dyraniad defnyddwyr fesul llwybr rhwng 2017 a 2022




**Ffynhonnell: Ffigyrau monitro ymwelwyr, APCE**

Cyflwr Yr Wyddfa

## Llwybr Watkin

Yn dilyn llacio cyfyngiadau Cofid-19, daeth llwybr Watkin yn ddewis hynod boblogaidd gyda chynnydd o 44% yn nifer y defnyddwyr yn ystod 2021 o'i gymharu â 2019.

Gyda chynnydd aruthrol ym mhoblogrwydd gweithgareddau fel nofio yn yr awyr agored yn genedlaethol, dangosodd arolwg yn 2022 batrwm clir o ran poblogrwydd rhaeadrau Afon Cwm Llan. Gwelwyd cyfartaledd o 50% o ddefnyddwyr ar y llwybr yn cerdded cyn belled â'r rhaeadrau'n unig heb barhau i'r copa.


Gostyngodd y niferoedd yn 2023 oherwydd ffactorau anhysbys; fodd bynnag gwelwyd cynnydd unwaith eto yn 2024 i lefelau tebyg i'r rhai a welwyd yn ystod 2021, gan awgrymu bod Llwybr Watkin yn parhau i fod yn ddewis poblogaidd yn dilyn pandemig Cofid-19.

Yn ystod 2021, gwelwyd cynnydd o 44% mewn defnyddwyr o'i gymharu â 2019.

Yn ystod 2022, ar gyfartaledd, roedd 50% o ddefnyddwyr ar Lwybr Watkin wedi ymweld â'r rhaeadrau yn unig (ddim wedi parhau i'r copa).





### Llwybr Watkin 2014 - 2024




Ffynhonnell: Ffigyrau monitro ymwelwyr, APCE

## Defnyddwyr Rheilffordd Yr Wyddfa




Ffynhonnell: Rheilffordd Yr Wyddfa






## Yr Wyddfa o'i chymharu â mynyddoedd eraill Her y Tri Chopa



**Ben Nevis**
125,000*



**Yr Wyddfa**
543,541



**Scafell Pike**
1,000,000*

*amcangyfrif

Ffynonellau: Visit Scotland, APCE, Ymddiriedolaeth Genedlaethol

## Y flwyddyn ffermio ar yr ucheldir

Tymor lloeau'r gwanwyn

Gwartheg yn pori ar y mynyddoedd

Tymor lloeau'r haf ar y mynydd

Dod a'r gwartheg i dir is i gael tarw

| Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Sganio: Mamogiaid yn cael eu sganio i wirio faint o ŵyn maen nhw'n eu cario. Mwy nag un oen - mwy o fwyd ir famog.

Tymor wyna.

Moga a'r wyn yn dychwelyd i'r mynydd.

Hyfforddiant cynefin: Mae'r defaid yn cofio eu hardal o'r mynydd ac yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r ŵyn.

Hel y mynyddoedd er mwyn cneifio gan fod y gôt wlân yn rhy gynnes yn yr haf.

Yr helfa: Mae defaid yn cael eu hel i lawr o'r mynydd a'u trochi (eu golchi mewn hylif i gael gwared ar drychod a phlâu eraill), ac i'w cael yn barod at yr hyrddod.

Yr hyrddod yn cael eu gollwng at y moga ar gyfer y tymor paru.

## Effaith cyfyngiadau Cofid-19 ar fywyd gwyllt

Yn ystod cyfyngiadau Cofid-19 yn 2020, comisiynodd APCE, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol arolwg a oedd yn asesu effaith y cyfyngiadau ar fywyd gwyllt.

Cynhaliwyd arolygon mewn sawl lleoliad ar draws gogledd Cymru gan gynnwys Yr Wyddfa. Cafodd yr arolwg ei ailadrodd yn 2021 ac yn 2022 ar gyfer cymharu rhwng cyfnod y cyfyngiadau a'r cyfnodau o niferoedd arferol o ddefnyddwyr. Ceir crynodeb o'r darganfyddiadau ar Yr Wyddfa isod:

- Yn 2020, gwelwyd nifer sylweddol uwch o nythod ac o adar yn magu ar y llwybrau o'i gymharu â 2021 a 2022. Roedd hyn yn ganlyniad i ddiffyg defnydd o'r llwybrau yn ystod y cyfyngiadau, a'r llystyfiant trwchus a gywasgwyd fel arfer gan nifer uchel o ddefnyddwyr.
- Gwelwyd mwy o adar unigol yn ystod 2020 ar y tri llwybr a arsylwyd (Llwybr y Mwynwyr, Llwybr Llanberis, Llwybr Watkin) o'i gymharu â 2021 a 2022.
- Gwelwyd mwy o amrywiaeth o rywogaethau ar y tri llwybr a arsylwyd yn ystod 2020 o'i gymharu â 2021 a 2022.




Pibydd y dorlan

©Ben Porter




### Cymhariaeth o nifer yr adar

(hy nifer yr adar unigol a gofnodwyd) ar hyd y prif lwybrau trawslun rhwng 2020, 2021 a 2022




### Amrywiaeth adar

(hy nifer y rhywogaethau) ar hyd y prif lwybrau trawslun rhwng 2020, 2021 a 2022





Ffynhonnell: Bywyd Gwyllt Dan Glo: Adroddiad Yr Wyddfa 2022, APCE

## Rhywogaethau ar drothwy difodiant

Mae Tlysau Mynydd Eryri yn brosiect o dan faner Natur am Byth!; partneriaeth rhwng naw corff anllywodraethol amgylcheddol a Cyfoeth Naturiol Cymru sydd wedi ei sefydlu er mwyn ailgysylltu pobl â natur, ac i achub rhywogaethau sydd o dan fygythiad.

Mae deg o rywogaethau planhigion fasgwlaidd mynydd mwyaf eiconig Cymru yn ganolbwynt i gamau cadwraeth prosiect Tlysau Mynydd Eryri. Mae pob un yn brin iawn yng Nghymru, ac mae sawl un ohonynt yn brin mewn cyd-destun Prydeinig. Y prif resymau am y prinder yw newid hinsawdd, gorbori, casglu hanesyddol, dyddodiad nitrogen atmosfferig a diffyg arolygon digonol.

Plantlife


Tormaen serennog





Mewn asesiadau cyflwr yn 2023 nodwyd fod tair o'r deg rhywogaeth darged i'w cael ar Yr Wyddfa.

**Neidrlys mynyddig** (*Bistorta vivipara*)


©Robbie Blackhall-Miles

**Celynredyn** (*Polystichum longchitis*)



©Robbie Blackhall-Miles

**Coredynen alpaidd** (*Woodsia alpina*)


©Jim Langley ***

Yn ychwanegol i'r uchod, o'r pum llyn ble y gellid dod o hyd i'r clam pys arctig yng Nghymru, mae tri ohonynt ar Yr Wyddfa. Hefyd, mae'r boblogaeth gyfan o chwilen yr enfys i'w gael yn 400 medr uchaf y mynydd.

**Clam pys arctig** (*Conventus conventus*)


©Robbie Blackhall-Miles

**Chwilen yr enfys** (*Chrysolina cerealis*)


©Alastair Hotchkiss

*** Llun 207326689 gan Jim Langley, © Jim Langley. Cedwir rhai hawliau. Wedi'i docio a'i ddefnyddio o dan drwydded CC BY-NC 4.0. Ar gael yn: https://www.inaturalist.org/photos/207326689

**Ffynhonnell: Asesiad Cyflwr 2023, Tlysau Mynydd Eryri**

## Wardeiniaid Gwirfoddol 2024

Wardeiniaid: **47**

Dyddiau gwirfoddoli: **103**


Oriau gwirfoddol (mynydd a fan wybodaeth): **4338**

Nifer y dyddiau pan fu'r fan wybodaeth allan: **36**

Nifer y bobl a gafodd gymorth (mynydd a fan wybodaeth): **4000***

*amcangyfrif

### Dyddiau gwirfoddoli 2018-2024




Ffynhonnell: APCE







## Sbwriel

Oherwydd poblogrwydd yr ardal a'r ffaith nad yw pob defnyddiwr yn gwaredu eu sbwriel yn gyfrifol, mae sbwriel o bob math yn fygythiad gwirioneddol i'w dyfodol cynaliadwy. Ymysg eraill, mae ein Wardeiniaid Gwirfoddol yn chware rhan amhrisiadwy drwy glirio a chario'r holl sbwriel i lawr a'i waredu'n gyfrifol.

**1564 kg**
o sbwriel wedi ei gasglu a'i gofnodi yn ystod 2024 fel rhan o brosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig

**97%**
o ddefnyddwyr yn fodlon defnyddio poteli ailddefnyddio

**402 diwrnod**
mae'n gymryd i groen banana bydru'n gyfan gwbl ar Yr Wyddfa

**6%**
o ddefnyddwyr yn dymuno gweld gwell rheolaeth ar sbwriel, gyda mwy o finiau a chosbau am ollwng sbwriel

Mae ymchwil gan Brifysgol Bangor wedi canfod microplastigion yn Llyn Llydaw. Mae gwaith dadansoddi yn digwydd i archwilio cysylltiadau posibl rhwng teithwyr a llygredd micro plastigion.

**82%**
o ddefnyddwyr yn meddwl y dylid gwahardd gwerthu plastig untro ar y mynydd

**84%**
o ddefnyddwyr yn nodi fod glendid yr amgylchedd yn ardderchog neu'n dda

**5%**
o'r copa yn ficro plastigion

Ffynhonnell: Adroddiadau casglu sbwriel misol, Prosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig, APCE
Ffynhonnell: Prosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig, APCE
Ffynhonnell: Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2024, APCE
Ffynhonnell: Arolwg Llygredd Micro Plastigion 2021, CGG ag APCE







### Gwybodaeth defnyddwyr

| Oeddech chi'n gwybod... ? | Oeddwn | Na |
|---|---|---|
| Dim ond ar ddiwedd y gwanwyn/haf y mae adeilad y copa ar agor? | 49% | 51% |
| Mae'r unig finiau ar Yr Wyddfa yn y meysydd parcio ac yn adeilad y copa? | 54% | 46% |

Ffynhonnell: Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2024, APCE

## Effaith ymweld ar lesiant

| Wnaeth eich ymweliad... ? | Do | Na |
| --- | --- | --- |
| Wneud i chi deimlo bod eich lles wedi gwella? | 98% | 2% |
| Wneud i chi eisiau dod yn ôl eto? | 98% | 2% |

**Ffynhonnell: Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2024, APCE**

> Fe wnaeth y profiad beri imi deimlo'n 'fyw' unwaith eto. Roeddwn i'n teimlo'n hapusach ac yn emosiynol ar ôl cyrraedd y copa. Bu'r profiad o fudd mawr i fy iechyd meddwl. Cefais fy nghyffroi gan natur – dw i ddim wedi teimlo hynny ers amser maith.
> Wrecsam, 45-54 oed

> Llwyddo i gyrraedd y copa a theimlo gwefr o hapusrwydd a balchder.
> Gwynedd, 55-64 oed

> Eryri yw fy 'lle hapus'. Cyfle i ddianc i ardal wyllt a chau allan y sŵn beunyddiol.
> De Ddwyrain Lloegr, 45-54 oed

> Mae'r golygfeydd godidog yn fy helpu i ymlacio.
> De Ddwyrain Lloegr, 65-74 oed

> Mae'n tynnu fy meddwl oddi ar fy mhryderon.
> Dwyrain Anglia, 25-34 oed

> Fe wnaeth fy helpu i glirio fy mhen.
> De Orllewin Lloegr, 25-34 oed


> Dwi'n ymlacio ar ôl treulio amser ym myd natur.
> Gogledd Ddwyrain Lloegr, 16-24 oed





## Ap Llwybrau'r Wyddfa

Dyluniwyd ap Llwybrau'r Wyddfa gan Bartneriaeth Yr Wyddfa ac fe'i lansiwyd ym mis Gorffennaf 2020. Mae'r ap yn gweithio gyda GPS ac wedi ei dylunio i dywys defnyddwyr ar hyd un o'r chwe phrif lwybr i'r copa. Mae'r ap ar gael i'w lawrlwytho oddi ar unai'r App Store neu Google Play.




## Adolygiadau

> Worth it. I wondered why this cost money but thought I'd give it a go. Must say I'm impressed. Easy to use and packed with features. Great app.

> Brilliant. Fantastic app for anyone trying any of the 6 paths up Yr Wyddfa. Lots of great information, detailed maps and amazing that the pointer guides you up the mountain as you go.

## Effaith system ragarchebu Pen y Pass

Argymhellwyd Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth 2020 ar gyfer ardaloedd Yr Wyddfa ac Ogwen i leihau parcio yn ardal fewnol y Parc Cenedlaethol, ac eithrio rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer trwyddedau arbennig neu ragarchebu. Yn unol â'r argymhelliad hwn, a'r angen i dreialu datrysiadau posibl oherwydd pwysau cynyddol yn sgil cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn ystod cyfnodau brig, treialwyd system ragarchebu ym Mhen y Pass yn ystod haf 2020. Gyda chefnogaeth gychwynnol gan Drafnidiaeth Cymru, adeiladwyd ar lwyddiant y peilot a pharhawyd gyda'r drefn hon ym Mhen y Pass.

Aeth hyn law yn llaw gyda'r gwelliannau i rwydwaith y Sherpa. Mae gwell gwasanaeth bws o Lanberis a Nant Peris i Ben y Pass yn golygu fod parcio a theithio o'r ardaloedd rheiny i Ben y Pass yn lawer mwy apelgar.








## Cyfanswm trafodion ticedi talu ac arddangos ym maes parcio Nant Peris

| | |
|---|---|
| 2018 | 8,273 |
| 2019 | 5,167 |
| 2020 | 7,375 |
| 2021 | 12,373 |
| 2022 | 14,147 |
| 2023 | 17,717 |
| 2024 | 16,767 |

Cynnydd cyson yn y nifer sydd yn defnyddio safle Nant Peris ers cyflwyno system ragarchebu ym Mhen y Pass yn 2020 a'r gwelliannau i rwydwaith Sherpa'r Wyddfa.

## Adolygiadau ar wefan Just Park

Ers lansio'r system mae'r adolygiadau ar wefan Just Park wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol gyda'r mwyafrif yn crybwyll hwylusrwydd archebu, effeithiolrwydd y gwasanaeth, a gofal cwsmer rhagorol ar y safle.

★★★★★
Was great to turn up and park, staff there all the time to help yes was £30 to park but well worth it.

★★★★★
It was so convenient, easy to book. When I arrived they had my registration number and directed me where to park. The attendants were very helpful.

★★★★★
Was greeted by a parking attendant which was surprising considering it was 4am. Very fast service. The staff were friendly. Perfect.

★★★★★
Outstanding, easy to use and great when you arrive.

## Parcio anghyfreithlon

Yn dilyn sefydlu'r system ragarchebu ym Mhen y Pass mae'r achosion peryglus o barcio yn anghyfreithiol wedi diflannu bron yn llwyr.

- Ni adroddwyd am unrhyw achosion yn 2021 na 2022.
- Gwelwyd achosion o ddefnyddwyr yn parcio ar y ffordd ar un penwythnos drwy'r tymor yn ystod 2023 - ymdriniwyd â hyn yn gyflym gan yr Heddlu ac ni adroddwyd am unrhyw faterion eraill am weddill y tymor.
- Gwelwyd un achos yn ystod y Pasg 2024 ble cafodd yr Heddlu eu galw gan fod ceir wedi parcio ar y gilffordd tuag at Ben y Gwryd.

**7%**

o ddefnyddwyr yn dymuno gweld gwell cyfleusterau parcio neu gostau is

Ffynhonnell: Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2024, APCE







## Sherpa'r Wyddfa

Yn ystod gwanwyn 2022 fe gafodd Sherpa'r Wyddfa ei lansio ar ei newydd wedd. Cafodd y bysiau eu hailfrandio ac roedd yr amserlen newydd yn cynnig mwy o wasanaethau a gwell integreiddio gwasanaethau. Roedd y gwelliannau yn ganlyniad i gydweithio agos rhwng Trafnidiaeth Cymru, Cyngor Gwynedd ac APCE.

Gyda gwasanaethau amlach gydag opsiynau gwell i gwsmeriaid ar gyfer defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus wrth deithio ar hyd a lled y Parc, mae'r gwelliannau wedi bod yn llwyddiant ysgubol.

Enillodd y Sherpa'r wobr arian yn y categori 'Bysiau ar gyfer Hamdden' yng Ngwobrau Bysiau'r DU yn ystod 2023.

> Mae'r Bysiau Sherpa yn wych.
> Gorllewin Canolbarth Lloegr, 55-64 oed

> Mae'r bysiau sy'n gwasanaethu'r ardal o amgylch yr Wyddfa yn wych.
> Gwynedd, 55-64 oed

> Mae'n syml, yn hawdd ac yn fforddiadwy.
> Gorllewin Canolbarth Lloegr, 16-24 oed

**76%**
o ddefnyddwyr yn teithio i'r Wyddfa gyda char/fan (tanwydd)

**48%**
o ddefnyddwyr yn teimlo fod teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus wrth ymweld yn opsiwn ymarferol


**37%**
o ddefnyddwyr wedi defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn ystod eu hymweliad

**12%**
o ddefnyddwyr wedi teithio i'r Wyddfa ar fws

**Ffynhonnell: Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2024, APCE**

Cludodd Sherpa'r Wyddfa 511,194 o deithwyr rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, cynnydd o 51% o'i gymharu â 2019-2020.

Gwelwyd cynnydd pellach o 3.4% yn 2024–2025, dros 53% yn uwch nag yn ystod 2019–2020.








## Ffigyrau defnyddwyr y Sherpa fesul mis gyda chymhariaeth flynyddol


| Defnyddwyr | 2019-20 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill | 30,364 | 14,581 | 38,351 | 50,036 | 43,836 |
| Mai | 36,681 | 24,699 | 41,192 | 59,348 | 61,947 |
| Mehefin | 33,253 | 36,929 | 42,324 | 55,018 | 57,051 |
| Gorffennaf | 40,485 | 41,482 | 48,620 | 55,558 | 61,334 |
| Awst | 40,083 | 43,280 | 56,909 | 67,159 | 72,296 |
| Medi | 32,974 | 34,114 | 41,669 | 53,796 | 52,514 |
| Hydref | 30,165 | 25,486 | 29,154 | 42,637 | 45,096 |
| Tachwedd | 23,153 | 17,465 | 20,755 | 24,472 | 29,005 |
| Rhagfyr | 20,138 | 14,172 | 17,745 | 20,696 | 21,438 |
| Ionawr | 21,269 | 14,941 | 18,255 | 22,226 | 24,541 |
| Chwefror | 20.006 | 15,331 | 20,462 | 23,198 | 24,852 |
| Mawrth | 15,031 | 21,836 | 23,650 | 37,050 | 34,881 |
| **Cyfanswm** | 343,602 | 304,343 | 399,086 | 511,194 | 528,791 |

Gwelwyd cynnydd o 79% o deithwyr ar draws y gwasanaeth o'i gymharu â'r cyfnod cyn Cofid-19.


**Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd**

## Galwadau i Dîm Achub Mynydd Llanberis

Mae’r ffigyrau isod yn dangos nifer y digwyddiadau a fynychwyd gan dimau achub Cymru a Lloegr o’r 1af o Ionawr i’r 30ain o Fedi, 2023. Mae Tim Achub Mynydd Llanberis (TAMLl) wedi ei amlygu.




Holl dimau achub mynydd Cymru a Lloegr, wedi eu nodi fesul nifer digwyddiadau.




Y pum tîm achub mynydd prysuraf yng Nghymru a Lloegr.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Galwadau Tîm Achub Mynydd Llanberis 2018-2023



Cyflwr Yr Wyddfa

### Y tîm

TAMLl yw’r tîm achub mynydd prysuraf yng Nghymru a Lloegr.

Mae TAMLl yn achub tua 1 o bob 1,000 o ddefnyddwyr Yr Wyddfa.

Ar gyfartaledd, mynychodd aelodau’r tîm ddwywaith cymaint o ddigwyddiadau yn 2023 nag a wnaethant yn 2015.

### Patrymau cyson

Mae’r rhan fwyaf o achubiadau yn digwydd ar benwythnosau (48%) a dyddiau Sadwrn yw’r dyddiau prysuraf (29%) ble gwelir uchafswm cyson mewn digwyddiadau tua 4yp.

Mae’r achosion o anffawd yn tueddu i ddigwydd o amgylch y copa, y rhannau uwch ar y llwybrau poblogaidd, ac mewn lleoliadau fel Crib Goch.

### Y rhai sydd angen cymorth

Oedolion ifanc yw’r rhai a gafodd eu brifo yn bennaf a dynion yw’r mwyafrif sy’n goddef anffawd.

Mae maint y grŵp yn fach ar y cyfan, gydag unigolion a phartïon o ddau yn cael eu hachub yn bennaf.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Galwadau Tîm Achub Mynydd Llanberis 2018-2023

Cyflwr Yr Wyddfa

# YR WYDDFA

## Dealltwriaeth o'r enwau Cymraeg

Yn ystod 2022, ymrwymodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i flaenoriaethu enwau Cymraeg Yr Wyddfa ac Eryri yn ei holl gyfathrebu. Ers hynny, mae'r Awdurdod wedi bod yn cadw golwg ar sut mae'r cyhoedd wedi ymateb i'r newid.

Mae 65% o ddefnyddwyr yn ymwybodol o'r enwau Cymraeg Yr Wyddfa/Eryri

65% | 35%

Mae 35% yn credu fod dryswch rhwng yr enwau Yr Wyddfa/Eryri, Snowdon/Snowdonia

> "A lot of people think by saying Snowdonia it's actually Snowdon, but by using the Welsh name it becomes clearer."
> Cymru, Gwynedd, 55-64 oed

> "The English names are very similar to each other. This isn't a problem with the Welsh names."
> Gorllewin Canolbarth Lloegr, 65-74 oed

Ffynhonnell: Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2024, APCE


©Cread Cyf & Slam Media

## Ffynonellau gwybodaeth

**36%** o ddefnyddwyr yn defnyddio'r we i baratoi cyn ymweld gyda chynllunio digidol ar gynnydd

**14%** o ddefnyddwyr yn defnyddio gwefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (cynnydd o 3% ers 2021)

**19%** o ddefnyddwyr ddim yn paratoi o gwbl

Ffynhonnell: Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2024, APCE

## Ymholiadau am Yr Wyddfa

| | |
|---|---|
| Trên bach Yr Wyddfa | 3% |
| Tywydd ar Yr Wyddfa | 0% |
| Llwybrau'r Wyddfa | 14% |
| Yr Wyddfa (cyffredinol) | 4% |
| Taith trên/bws | 17% |
| Nifer yr ymholiadau am Yr Wyddfa o'r holl ymholiadau | 39% |

(Ymholiadau wyneb yn wyneb yn y Canolfannau Croeso ac yn nerbynfa Swyddfeydd y Parc yn ystod haf 2024, - cafwyd cyfanswm 1052 ymholiad.)

Ffynhonnell: APCE






Cyflwr Yr Wyddfa

## Ffynhonnau dŵr o gwmpas Yr Wyddfa



## Nifer wedi cyflawni modiwl Yr Wyddfa fel rhan o raglen Llysgennad Eryri




Ffynhonnell: APCE

## Effaith economaidd y sawl sy'n ymweld ag Eryri

| 2023 | Cyfanswm | Ymwelwyr dyddiol | Ymwelwyr wedi aros dros nos |
|---|---|---|---|
| Nifer ymwelwyr ag Eryri | 4.89m | 3.21m | 1.69m |
| Effaith economaidd | £822.49m | £198.96m | £523.53m |

Ffynhonnell: STEAM







# 05 Proses ddatblygu'r Cynllun

- Adroddiad Adlewyrchu ar y Cynllun gwreiddiol
  **2023**
- Archwiliad o ymgynghoriadau ag ymgyrchoedd diweddar a pharhaus yn yr ardal
  **2024**
- Cyfres o gyfarfodydd rhwng staff perthnasol APCE i gynllunio ar gyfer adolygu'r Cynllun a chreu cynllun gweithredu newydd
  **2024**
- Adolygu'r aelodaeth gan gysidro perthnasau gweithio sydd wedi datblygu ers lansio'r Cynllun yn 2018
  **2024**
- Gweithdy cychwynnol gyda staff APCE
  **2024**
- Cyfres o dri gweithdy partneriaid a rhanddeiliaid
  **2024 - 2025**
- Cyflwyno'r cynllun gweithredu i Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
  **2025**
- Ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc o ysgolion cynradd ac uwchradd yn ardal Yr Wyddfa
  **2025**
- Sesiynau galw heibio ym Meddgelert, Llanberis a Waunfawr
  **2025**
- Ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein am gyfnod o dair wythnos
  **2025**
- **Digwyddiad lansio**

06

# Ein haddewid

Cydweithiwn i feithrin a chyfoethogi'r rhinweddau sy'n gwneud Yr Wyddfa'n arbennig. Yn wyneb heriau dwys, ymrwymwn i ddatblygu datrysiadau arloesol fydd yn adfer, ac yn gofalu am yr ecosystem a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal. Tra byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i anghenion defnyddwyr, byddwn yn blaenoriaethu diogelwch yr ecosystem fregus, ein diwylliant, amaeth, a llesiant ein cymunedau.

Addysgwn y cyhoedd am Yr Wyddfa a sut i ymweld yn ddiogel a chynaliadwy, gan sicrhau effaith gadarnhaol ar y mynydd. Yn sgil hyn, ein gobaith yw i bawb barchu, mwynhau a gofalu am y mynydd a'i gymunedau.

Bydd pobl yr ardal yn greiddiol i'n gwaith, gan gyd-ddylunio atebion sy'n dod â buddion parhaol i'w cymunedau, yr amgylchedd a'r economi. Drwy gydweithio, byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth a safbwyntiau lleol yn ganolog i reoli a gwarchod y mynydd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.







## TERMAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| Cydweithiwn | Bydd yr holl sefydliadau yn gweithio'n agos ac yn cyd-gynhyrchu er mwyn gwireddu'r addewid. Bydd hyn yn cynnwys rhannu adnoddau, cyd-arwain ar brosiectau, rhannu data a gwybodaeth, ac yn gwneud penderfyniadau ar y cyd drwy drafodaethau agored. |
| Rhinweddau | Yr holl elfennau sy'n gwneud Yr Wyddfa'n eiconig ag arbennig gan gynnwys ei rhywogaethau a'i chynefinoedd amrywiol, tirluniau creigiog, treftadaeth amaethyddol a diwylliannol, llethrau a chopaon mawreddog, golygfeydd eithriadol, chwedlau, iaith, hanes, a'i phwysigrwydd fel cyrchfan boblogaidd. |
| Heriau | Bydd Yr Wyddfa'n parhau i wynebu nifer o heriau dros y blynyddoedd nesaf gan gynnwys newid hinsawdd, pwysau niferoedd uchel o ddefnyddwyr, a diffyg adnoddau a buddsoddiad. |
| Defnyddwyr | Unrhyw un sy'n gwneud defnydd o'r Wyddfa am unrhyw reswm gan gynnwys ymweld, hamddena neu ar gyfer anturiaethau awyr agored. |
| Treftadaeth ddiwylliannol | Pethau cyffyrddadwy ac anghyffyrddadwy sydd wedi eu hetifeddu o genhedlaeth i genhedlaeth - rhai ble nad oes ond modd eu clywed neu eu profi. Mae'r rhain yn cynnwys cyfeiriadau at Yr Wyddfa o fewn chwedloniaeth Gymraeg, traddodiadau ac arferion unigryw i'r mynydd, ei phwysigrwydd hanesyddol, enwau lleoedd, llên gwerin, yn ogystal â'i rôl mewn hunaniaeth genedlaethol. |
| Ecosystem fregus | Cymuned fiolegol gymhleth o rywogaethau rhyngweithiol a'u hamgylchedd ar Yr Wyddfa. Oherwydd yr heriau sy'n wynebu'r mynydd, mae'r ecosystem mewn sefyllfa argyfyngus gyda rhai rhywogaethau ar drothwy difodiant. |
| Amaeth | Mae yna 26 o ffermydd ar Yr Wyddfa gyda'u dulliau amaethu unigryw a'u ffordd o fyw sy'n bodoli ers cenedlaethau. |
| Cymunedau | Unrhyw grŵp o bobl sy'n rhannu nodweddion cyffredin, ond heb fod yn gyfyngedig i - leoliad, iaith, oed, hil, ethnigrwydd, profiadau a/neu ddiddordebau. Yng nghyd-destun y Cynllun hwn, golygir unrhyw gymuned sydd â'r Wyddfa'n gyffredin mewn unrhyw ffordd. Serch hynny, fe roddir fwy o ystyriaeth i'r cymunedau sy'n byw ar Yr Wyddfa neu'r cyffiniau. |
| Cyhoedd | Defnyddwyr, trigolion, staff ein sefydliadau, gwirfoddolwyr, plant a phobl ifanc. |
| Ymweld yn gynaliadwy | Ymweld a mwynhau'r Wyddfa mewn ffordd lle nad oes unrhyw niwed yn cael ei wneud i'r amgylchedd nac i rinweddau arbennig yr ardal. Mae'n golygu gwneud dewisiadau sy'n gwarchod natur, cefnogi cymunedau ac sy'n parchu traddodiadau lleol - megis peidio ag amharu ar fywyd gwyllt, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, mynd â sbwriel adref a chefnogi busnesau lleol. |
| Effaith gadarnhaol | Mynd gam ymhellach na'r uchod e.e. gwirfoddoli i gasglu sbwriel neu i ymwneud â gwaith cadwraethol. |
| Trigolion yr ardal | Y bobl sy'n byw ar Yr Wyddfa a'r cymunedau cyfagos gan gynnwys Llanberis, Nant Peris, Nantgwynant, Beddgelert, Rhyd Ddu a Waunfawr. |
| Economi | Ystyrir holl faterion perthnasol i'r economi leol a rhanbarthol gan gynnwys yr Economi Ymweld Gynaliadwy a'r economi wledig megis amaeth a busnesau lleol. |

07

# Sut mae'r Cynllun yn gweithio


## Dylanwadau polisi

Mae'r Cynllun hwn wedi'i gyd-ddylunio gan ystyried polisïau lleol a chenedlaethol a sicrhau cysondeb gyda blaenoriaethau rhanbarthol a chydymffurfiaeth lawn ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol.

**Y prif fframweithiau a ystyriwyd yw:**

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ystyried llesiant a chynaliadwyedd hirdymor wrth wneud pob penderfyniad, gan hyrwyddo rheolaeth gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol gytbwys. Y prif newidiadau yr ydym am eu gweld yn sgil Cynllun Yr Wyddfa:








### Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r Ddeddf hon yn gorchymyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan sicrhau bod ecosystemau'n cael eu gwarchod a'u gwella, a hyrwyddo gwytnwch yn erbyn newid hinsawdd.

### Cynllun Eryri

Mae'r Cynllun hwn yn gosod y weledigaeth a'r cyfeiriad strategol ar gyfer rheoli Parc Cenedlaethol Eryri, gan flaenoriaethu cadwraeth, twristiaeth gynaliadwy, a chyfranogiad cymunedol lleol er mwyn sicrhau diogelwch hirdymor ecolegol a diwylliannol.

### Cynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLl)

Mae CDLl Eryri yn llywodraethu polisïau defnydd tir a chynllunio sy'n benodol i'r Parc Cenedlaethol, gan sicrhau datblygu cynaliadwy.

### Siarter Creu Lleoedd Cymru

Datblygwyd y Siarter hon gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru, ac mae'n datblygu'r ffocws ar gryfhau creu lleoedd mewn polisi ac ymarfer yng Nghymru. Ei nod yw darparu dealltwriaeth gyffredin o'r ystod o ystyriaethau sy'n cael eu defnyddio i greu lleoedd.

### Polisïau Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu polisïau penodol sy'n llywio'r gwaith o reoli cynefinoedd naturiol a bioamrywiaeth, gan sicrhau cydbwysedd rhwng mynediad a'r angen i ddiogelu ecosystemau a rhywogaethau sensitif.

### Strategaeth Economi Ymweld Gynaliadwy Gwynedd ac Eryri

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer twristiaeth gynaliadwy yn y rhanbarth, gan anelu at gydbwyso twf economaidd â diogelu'r amgylchedd ac ymgysylltu â'r gymuned, tra'n hyrwyddo twristiaeth gyfrifol ar yr un pryd.

**Fframweithiau ychwanegol sydd wedi eu hystyried:**

### Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
Mae'r Ddeddf hon yn amddiffyn bywyd gwyllt ac ardaloedd cadwraeth dynodedig, gan sicrhau cydymffurfiaeth â diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd cenedlaethol.

### Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
Mae'r Ddeddf hon yn rhoi hawliau mynediad i'r cyhoedd i lawer o'r cefn gwlad agored, gan gynnwys ardaloedd fel Yr Wyddfa, ac yn darparu canllawiau i reoli defnydd hamdden mewn ffordd sy'n cydbwyso mynediad a chadwraeth.

### Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023
Mae'r Ddeddf hon yn sicrhau diogelu safleoedd hanesyddol ac archeolegol, gan feithrin eu gwerth i genedlaethau'r dyfodol.

### Polisi Newid Hinsawdd Cymru
Mae'r polisi hwn yn amlinellu dull Cymru o liniaru ac addasu i newid hinsawdd, gan sicrhau bod rheolaeth yn gyfrifol am wydnwch yr hinsawdd a chynaliadwyedd amgylcheddol.

### Cyfarwyddebau Natur Yr Undeb Ewropeaidd (a gedwir yng nghyfraith y DU ar ôl Brexit)
Mae'r Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd yn darparu amddiffyniad parhaus i gynefinoedd a rhywogaethau dynodedig, gan sicrhau cydymffurfiaeth â safonau cadwraeth ar lefel Ewrop.



Sut mae'r Cynllun yn gweithio



## Themâu

Datblygwyd y Cynllun hwn gyda saith thema allweddol mewn golwg, pob un yn adlewyrchu'r heriau a'r cyfleoedd unigryw sy'n gysylltiedig â'r dirwedd eiconig hon. Mae'r themâu hyn yn ganolog i wireddu ein haddewid, gyda chamau gweithredu penodol wedi'u hamlinellu o dan bob un er mwyn sicrhau gweithredu effeithiol. Mae pob thema yn mynd i'r afael ag agweddau gwahanol o ran rheoli'r Wyddfa, gan gynnwys adfer a gofalu am yr ecosystem, cydreoli'r defnydd o'r mynydd, a chyfathrebu negeseuon sy'n annog ymweliadau cyfrifol, gan ddarparu fframwaith cynhwysfawr ar gyfer stiwardiaeth gynaliadwy.

### Ecosystem Yr Wyddfa

Cymuned fiolegol o rywogaethau rhyngweithiol a'u hamgylchedd ar Yr Wyddfa.

### Treftadaeth ddiwylliannol

Pethau cyffyrddadwy ac anghyffyrddadwy sydd wedi eu hetifeddu o genhedlaeth i genhedlaeth - rhai ble nad oes ond modd eu clywed neu eu profi. Mae'r rhain yn cynnwys cyfeiriadau at Yr Wyddfa o fewn chwedloniaeth Gymraeg, traddodiadau ac arferion unigryw i'r mynydd, ei phwysigrwydd hanesyddol, enwau lleoedd, llên gwerin, yn ogystal â'i rôl mewn hunaniaeth genedlaethol.

### Cymunedau

Unrhyw grŵp o bobl sy'n rhannu nodweddion cyffredin, ond heb fod yn gyfyngedig i - leoliad, iaith, oed, hil, ethnigrwydd, profiadau a/neu ddiddordebau. Yng nghyd-destun y Cynllun hwn, golygir unrhyw gymuned sydd â'r Wyddfa'n gyffredin mewn unrhyw ffordd. Serch hynny, fe roddir fwy o ystyriaeth i'r cymunedau sy'n byw ar Yr Wyddfa neu'r cyffiniau.





### Gweithgareddau awyr agored

Unrhyw weithgaredd sy'n digwydd ar y mynydd, sy'n amrywio o weithgareddau anturus megis dringo, ogofa, i ddigwyddiadau elusennol a theithiau tywys, i heriau/rasys wedi'u trefnu gan gwmnïau preifat.

### Isadeiledd

Strwythurau preifat a chyhoeddus o fewn ardal y Cynllun gan gynnwys ffyrdd, llwybrau, adeiladau, toiledau, meysydd parcio, cysylltedd ffôn/rhyngrwyd a systemau trafnidiaeth gyhoeddus.

### Economi

Ystyrir holl faterion perthnasol i'r economi leol a rhanbarthol gan gynnwys yr Economi Ymweld Gynaliadwy a'r economi wledig megis amaeth a busnesau lleol.

### Cyfathrebu

Ystyrir y dulliau a ddefnyddir gan y Bartneriaeth ar gyfer ymgysylltu â defnyddwyr i liniaru a lleihau effeithiau niweidiol, a chynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar y mynydd a'i gymunedau.

## Llwybr llwyddiant: Cysylltu ein haddewid, ein canlyniadau a'n cynllun gweithredu

Mae'r Cynllun hwn wedi'i gyd-gynllunio gyda gweithredu effeithiol yn elfen greiddiol ohono. Mae ein haddewid, y canlyniadau gorau posibl, y canlyniadau o fewn cyrraedd, a'r cynllun gweithredu i gyd wedi'u cysylltu'n agos.


**Ein haddewid**
Ein haddewid ar gyfer y mynydd a'n ffordd o weithio er mwyn ei gyflawni.

**Canlyniadau gorau posib**
Canlyniadau gorau posib ar gyfer pob thema. Perffeithrwydd.
25 mlynedd

**Canlyniadau o fewn cyrraedd**
Y pethau penodol sydd angen digwydd er mwyn gwireddu'r canlyniadau gorau posib.
5 mlynedd

**Cynllun gweithredu**
Rhaglen waith gyda phrosiectau penodol a'r partneriaid perthnasol i'w gweithredu.
5 mlynedd

**Gwerthuso parhaus**
Y prosesau ar gyfer monitro cynnydd a gwerthuso ein gwaith a'n ffordd o weithio yn gyson.







## Ecosystem Yr Wyddfa

**Canlyniad gorau posib:**
Ecosystem iach a ffyniannus gydag amgylchedd dilychwil a di-sbwriel.

**Canlyniadau o fewn cyrraedd:**

1.1 Mae cymuned rheoli tir Yr Wyddfa yn cael ei chefnogi'n barhaus i arwain prosiectau cynaliadwy ac arloesol sy'n gwella iechyd a gwytnwch yr ecosystem.

1.2 Mae dull cadwraeth cydlynol, sy'n canolbwyntio ar gynyddu bioamrywiaeth a gwella gwytnwch mewn ymateb i newid hinsawdd a phwysau dynol ac amgylcheddol eraill, yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor yr ecosystem wrth godi ymwybyddiaeth o ddynodiadau amgylcheddol a'u pwysigrwydd.

1.3 Mae'r Wyddfa yn cael ei chydnabod ar draws y byd fel y mynydd di-blastig cyntaf, gan osod esiampl mewn cynaliadwyedd amgylcheddol.

1.4 Mae ymgyrchoedd addysg gyhoeddus yn codi ymwybyddiaeth o ymddygiadau niweidiol fel barbeciwio, cerdded oddi ar y llwybr, caniatáu cŵn oddi ar dennyn o amgylch anifeiliaid fferm neu adar sy'n nythu, gwersylla gwrthgymdeithasol, taflu sbwriel a graffiti.

## Treftadaeth ddiwylliannol

**Canlyniad gorau posib:**
Yr Wyddfa'n parhau i ysbrydoli ac i gysylltu cenedlaethau gyda'i gilydd. Bydd ei thraddodiadau dwfn, ei hanes cyfoethog, a'i harddwch naturiol eithriadol yn parhau i fod yn achosion i'w dathlu.

**Canlyniadau o fewn cyrraedd:**

2.1 Mae mesurau effeithiol ar waith i ddiogelu a gwarchod treftadaeth ddiwylliannol y mynydd, gan sicrhau bod ei harwyddocâd hanesyddol, ieithyddol a thraddodiadol yn cael ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

2.2 Mae'r Gymraeg yn gryf ym mhob agwedd o fywyd ar y mynydd, sy'n ennyn diddordeb a gwerthfawrogiad o dreftadaeth ddiwylliannol ehangach y rhanbarth, gyda'r cyhoedd a'r cyfryngau ledled y byd yn cydnabod ac yn defnyddio'r enwau lleoedd Cymraeg yn naturiol, ym mha bynnag iaith sy'n cael ei defnyddio.

2.3 Mae ymgysylltu â'r Wyddfa drwy fentrau cyfathrebu Partneriaeth yr Wyddfa neu drwy ymweld, yn meithrin parch at ei threftadaeth ddiwylliannol ac yn dyfnhau dealltwriaeth a gwerthfawrogiad defnyddwyr o'r elfennau hyn.



Sut mae'r Cynllun yn gweithio

## Cymunedau

**Canlyniad gorau posib:**
Y cymunedau yn chwarae rhan allweddol mewn meithrin ymdeimlad o berthyn. Bydd eu cysylltiad dwfn gyda'r mynydd yn cryfhau gan gyfrannu tuag at eu llesiant, ac yn cynnig manteision corfforol, emosiynol a chymdeithasol.

**Canlyniadau o fewn cyrraedd:**

3.1 Cyd-ddylunio a chydweithio ystyrlon gyda'r cymunedau i greu cynlluniau sy'n sicrhau gwydnwch a lles hirdymor y cymunedau rheiny a'r mynydd.

3.2 Cryfhau'r cysylltiad rhwng pobl a'r tir, gan sicrhau bod cymunedau lleol yn cyfrannu'n gyson at warchod a mwynhau'r mynydd.

3.3 Anogir pob defnyddiwr i ymgysylltu â gwasanaethau a busnesau lleol a'u cefnogi er mwyn budd economaidd y cymunedau.

## Gweithgareddau awyr agored

**Canlyniad gorau posib:**
Effeithiau negyddol rhai gweithgareddau ar y mynydd yn cael eu lliniaru fel nad oes niwed i'r amgylchedd, y dreftadaeth ddiwylliannol na'r cymunedau. Gweithgareddau'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r economi gyda gwasanaethau'n gweithredu'n effeithiol.

**Canlyniadau o fewn cyrraedd:**

4.1 Mae cydweithio gyda'r adnoddau sydd ar gael gyda'r gwasanaethau brys, timau achub mynydd a rhanddeiliaid yn helpu i leihau galwadau osgoadwy ac yn gwella negeseuon diogelwch, gan hyrwyddo ymgymryd â gweithgareddau awyr agored mewn modd cyfrifol.

4.2 Mae mwy o gyfleoedd i ddysgu ac i ymgysylltu â'r awyr agored drwy hyrwyddo defnydd cyfrifol o dir, ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac amgylcheddol, a diogelwch, gan gynnwys rheoli cŵn.

4.3 Mae trefnwyr digwyddiadau yn annog parch at y mynyddoedd a chymunedau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd preswyl, drwy leihau llygredd sŵn a golau. Trefnir digwyddiadau i osgoi cyfnodau brig a thymhorau sensitif fel nythu, gan sicrhau eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned leol wrth leihau effeithiau amgylcheddol.

4.4 Mae ymchwil barhaus i effeithiau amgylcheddol ac economaidd gweithgareddau awyr agored yn meithrin partneriaethau i wella rheolaeth a sicrhau cynaliadwyedd.

4.5 Mae niferoedd defnyddwyr yn cael eu monitro, ac mae'r data a gesglir o weithgareddau a digwyddiadau yn llywio penderfyniadau i reoli mynediad, diogelu'r amgylchedd, a chefnogi'r economi leol.





## Isadeiledd

**Canlyniad gorau posib:**
Isadeiledd ardderchog a gwasanaethau integredig sy'n hygyrch ac yn addas i ddefnydd amrywiol, gyda llwybrau yn cael eu cynnal i safon uchel, yn wydn i heriau'r amgylchedd mynyddig, ac yn gwrthsefyll effaith pobl ac erydiad.

**Canlyniadau o fewn cyrraedd:**

5.1 Mae technoleg arloesol yn y lleoliadau allweddol o gwmpas Yr Wyddfa yn gwneud gwybodaeth am Yr Wyddfa yn hygyrch, gan hyrwyddo defnydd cyfrifol a gwella profiadau defnyddwyr.

5.2 Mae ardal Yr Wyddfa yn cynnig gwasanaethau o ansawdd uchel gyda chyfleusterau modern, glân a hygyrch i'r holl ddefnyddwyr, gan sicrhau profiad ardderchog.

5.3 Mae llwybrau Yr Wyddfa yn cael eu cynnal i safon uchel, gan eu gwneud yn wydn i'r amgylchedd, effaith ddynol, a newid hinsawdd.

5.4 Mae Cylchdaith Yr Wyddfa yn cysylltu cymunedau lleol gyda llwybrau'r mynydd, gan wella mynediad a diogelu'r amgylchedd 'run pryd.

5.5 Gweithredir atebion cynaliadwy i fynd i'r afael â materion parcio a thrafnidiaeth, gwella hygyrchedd a lleihau effaith amgylcheddol gormodedd o gerbydau.

## Economi

**Canlyniad gorau posib:**
Economi lewyrchus er budd a lles pobl, cymunedau, ecosystem a threftadaeth ddiwylliannol Yr Wyddfa.

**Canlyniadau o fewn cyrraedd:**

6.1 Mae mwy o bobl leol a defnyddwyr yn elwa o ymgysylltu â'r Wyddfa, cefnogi busnesau a gwasanaethau lleol, ac o gymryd rhan mewn ymdrechion i ddiogelu'r ardal.

6.2 Mae defnyddwyr yn mwynhau profiad Cymreig o ansawdd uchel drwy gydol y flwyddyn, gyda niferoedd defnyddwyr cytbwys sy'n cefnogi busnesau lleol wrth reoli pwysedd yn gynaliadwy.

6.3 Caiff contractwyr lleol eu comisiynu ar gyfer gwaith, gan gyfrannu at yr economi ranbarthol wrth gefnogi arferion cynaliadwy.

6.4 Mae cynnydd yn parhau o ran sicrhau Economi Ymweld Gynaliadwy i Wynedd ac Eryri, gan feithrin twf economaidd lleol wrth ddathlu a diogelu ein hiaith a'n diwylliant, gwarchod ein hamgylchedd, a sicrhau bod y manteision i gymunedau yn gorbwyso unrhyw anfanteision.





## Cyfathrebu

**Canlyniad gorau posib:**
Gwybodaeth gywir ar gael yn rhwydd am ymweld â'r Wyddfa'n gynaliadwy ac am ei rhinweddau arbennig cyn yr ymweliad, yn ystod yr ymweliad ac ar ei ôl. Yn sgîl hynny, defnyddwyr yn cael profiad o'r radd flaenaf drwy ymweld yn gyfrifol a chael effaith gadarnhaol ar y mynydd a'i gymunedau.

**Canlyniadau o fewn cyrraedd:**

7.1 Mae gwybodaeth glir a chywir am ymweld â'r Wyddfa yn gynaliadwy ar gael cyn, yn ystod, ac ar ôl ymweliadau, yn ystod yr ymweliadau ac ar eu hôl i helpu defnyddwyr i leihau eu heffaith ar y mynydd a'i gymunedau.

7.2 Mae arwyddion mewn mannau priodol yn tynnu sylw at negeseuon diogelwch i leihau nifer y galwadau osgoadwy i'r timau achub mynydd, gan sicrhau profiad diogel.

7.3 Mae dulliau cyfathrebu amrywiol, gan gynnwys sianeli ac arwyddion digidol, yn addysgu ymwelwyr am reoli tir, amaethyddiaeth a chadwraeth, gan hyrwyddo dealltwriaeth o rinweddau arbennig yr ardal.

7.4 Mae cyfathrebu'n addasu i reoli nifer uchel o ymwelwyr yn ystod yr oriau brig, gan ddarparu gwybodaeth amser real am ddiogelwch, yr amgylchedd a gwybodaeth i ddefnyddwyr am sut i ymweld yn gyfrifol.

7.5 Mae rhaglen Llysgennad Eryri yn datblygu, gan gysylltu defnyddwyr â llysgenhadon sy'n rhannu gwybodaeth am ddiogelwch, hyrwyddo cynaliadwyedd, a'u cysylltu â threftadaeth ddiwylliannol a naturiol Yr Wyddfa.

# Cynllun gweithredu

## Ecosystem Yr Wyddfa

**Canlyniad gorau posib: Ecosystem iach a ffyniannus gydag amgylchedd dilychwin a di-sbwriel.**

| Prosiect/Gweithred/ Ffordd o weithio | Manylion pellach | Sut fydd mesur llwyddiant | Partneriaid perthnasol | Prif egwyddorion ategol Siarter Creu Lle Cymru |
|---|---|---|---|---|
| 1.1 Mae cymuned rheoli tir Yr Wyddfa yn cael ei chefnogi'n barhaus i arwain prosiectau cynaliadwy ac arloesol sy'n gwella iechyd a gwytnwch yr ecosystem. | | | | |
| 1.1.1<br><br>Trafod gyda chynhyrchwyr, tirfeddianwyr a'r undebau am y posibilrwydd o greu statws 'Yr Wyddfa' ar gynnyrch, a fyddai'n cyfrannu tuag at warchod yr ecosystem. | Ymgynghori cychwynnol gyda chynhyrchwyr a thirfeddianwyr i asesu'r angen ac ymchwilio i wahanol opsiynau o ran gwahanol ardystiadau amgylcheddol.<br><br>Petai statws yn cael ei ddatblygu, byddai'n rhaid i'r meini prawf fod yn llym iawn gan sicrhau nad yw'r cynhyrchwyr/ tirfeddianwyr yn cael effaith negyddol ar yr ecosystem, ond yn hytrach eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at ei gwarchod a'i hadfer. | Byddwn yn asesu'r ymateb i'r ymgynghoriad gan gynnwys faint o amaethwyr ar Yr Wyddfa sydd wedi ymateb, ac sydd â diddordeb i fod yn rhan o gynllun o'r fath. | APCE<br><br>Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)<br><br>CLA Cymru<br><br>NFU Cymru<br><br>Ystâd Baron Hill | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |
| 1.1.2<br><br>Grymuso a chefnogi ffermwyr i gyfrannu'n weithredol at gynnal a gwella'r ecosystem. | Hyrwyddo unrhyw gynlluniau grantiau a fyddai o gymorth i amaethwyr drwy blatfformau'r Parc Cenedlaethol.<br><br>Cyllideb arian sbarduno ar gael drwy GwyrddNi i arbrofi yn gymunedol ac ecolegol.<br><br>Bydd yr adran Cadwraeth, Coed ag Amaeth yn parhau i gefnogi ffermwyr drwy grant craidd yr adran sydd yn cyfrannu tuag at waith adfer amrywiol megis waliau cerrig sych, plannu/plygu/bon-docio gwrychoedd a ffensio. | Byddwn yn cynnal arolwg yn 2026 i asesu a yw ffermwyr ar Yr Wyddfa yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu gwaith, tra hefyd yn rheoli'r ecosystem, ac yn canfod eu barn am y ffordd orau y gall y Bartneriaeth eu cefnogi, er ei budd hirdymor.<br><br>O ran grantiau gan yr Awdurdod, bydd y dangosyddion yn cynnwys cyfanswm hyd y ffensys, hyd y waliau cerrig a adferwyd, a faint o blannu coed a wneir. | APCE<br><br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br><br>Plantlife Cymru<br><br>Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)<br><br>CLA Cymru<br><br>NFU Cymru<br><br>Ystâd Baron Hill<br><br>GwyrddNi<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.1.3<br><br>Rhannu arferion da a hyrwyddo'r newidiadau bychain a all ddigwydd sydd yn cynnig buddion i'r ecosystem a hyrwyddo'r gwaith da mae amaethwyr yn ei gyflawni yn barod. | Trwy ddigwyddiadau amrywiol gan y partneriaid perthnasol.<br><br>Archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu rhaglen beilot sy'n casglu gwastraff fel hen ffensys a phlastig du, o ffermydd ac yn ei ailgylchu/ ailddefnyddio.<br><br>Archwilio a hyrwyddo dulliau cynaliadwy amgen i arferion presennol sy'n ymwneud â phlastigau amaethyddol, fel lapiau byrnau du, bagiau bwydo, a bwcedi mwynau. | Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol.<br><br>Ar gyfer ymdrechion hyrwyddo, byddwn yn mesur ffactorau amrywiol yn seiliedig ar y dulliau a ddefnyddir, megis nifer sy'n ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol, cyfraddau presenoldeb mewn digwyddiadau, ac adborth mewn arolygon. | APCE<br><br>Plantlife Cymru<br><br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br><br>Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)<br><br>NFU Cymru<br><br>CLA Cymru<br><br>Ystâd Baron Hill<br><br>GwyrddNi<br><br>Cymdeithas Eryri | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |





| 1.2 Mae dull cadwraeth cydlynol, sy'n canolbwyntio ar gynyddu bioamrywiaeth a gwella gwytnwch mewn ymateb i newid hinsawdd a phwysau dynol ac amgylcheddol eraill, yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor yr ecosystem wrth godi ymwybyddiaeth o ddynodiadau amgylcheddol a'u pwysigrwydd. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.2.1<br><br>Pwyslais sylweddol ar addysgu'r cyhoedd for Yr Wyddfa yn cynnwys sawl dynodiad amgylcheddol gyda'r warchodaeth uchaf posib. | Cynnwys y neges pan fo'n briodol wrth gyfathrebu ar bob platfform i wella dealltwriaeth a hyrwyddo dysgu. | Cynnydd yng ngwybodaeth y cyhoedd am warchodaeth amgylcheddol ar Yr Wyddfa.<br><br>Nid yw hyn wedi'i fesur o'r blaen, felly caiff gwaelodlin ei sefydlu yn yr arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa nesaf, sydd wedi ei raglennu ar gyfer 2028. | Holl bartneriaid | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.2.2<br><br>Gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd am yr heriau sy'n wynebu'r ecosystem fregus. | Addysgu drwy gyfrwng y rhaglen Llysgennad Eryri, hyfforddiant arbenigol, a sianeli cyfathrebu amrywiol.<br><br>Datblygu mentrau presennol megis rhaglen Llysgennad Eryri a Phrosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig ac ystyried yr angen am gynlluniau achredu ychwanegol. | Y ddarpariaeth gyfredol mewn rhaglenni fel Llysgennad Eryri o ran yr ecosystem.<br><br>Y nifer sy'n cyflawni modiwlau perthnasol fel rhan o raglen Llysgennad Eryri.<br><br>Cynnydd yn y ganran o ddefnyddwyr sy'n ymwybodol o brosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig. I'w fesur yn Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2028.<br><br>Ar gyfer ymdrechion hyrwyddo, byddwn yn mesur ffactorau amrywiol yn seiliedig ar y dulliau a ddefnyddir, megis nifer sy'n ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol, cyfraddau presenoldeb mewn digwyddiadau, ac adborth mewn arolygon. | Holl bartneriaid | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |





| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.2.3<br><br>Cynnwys gwybodaeth am amaethu mewn cyfathrebiadau pan yn briodol e.e. amlygu fod y tir yn dir amaethyddol gyda phobl yn ceisio gwneud bywoliaeth arno. | Mewn ymgyrchoedd cyfathrebu amrywiol e.e. cyfres o ffilmiau byrion am ymweliadau cyfrifol i'r Wyddfa. | Cynnydd yn y ganran o ddefnyddwyr sy'n datgan eu bod yn gwbl ymwybodol o'r Côd Cefn Gwlad o 67% i 75%, lleihau'r rhai sydd â gwybodaeth rannol o 16% i 13%, a lleihau'r ganran o ddefnyddwyr nad ydynt yn ymwybodol o honno o gwbl, o 17% i 12%. I'w fesur yn Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2028. | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.2.4<br><br>Mae ymdrechion ar y cyd yn canolbwyntio ar reoli a gwaredu rhywogaethau ymledol i amddiffyn bioamrywiaeth leol. | Bydd y contractau y cytunwyd arnynt fel rhan o brosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE yn cael eu cwblhau er mwyn lleihau presenoldeb Rhododendron ponticum yn ardaloedd Nantgwynant a Beddgelert. Bydd y prosiect etifeddiaeth, AfterLIFE yn cael ei ddatblygu yn 2026, gan amlinellu'r camau nesaf o ran sicrhau cynaliadwyedd ac effaith barhaus cyflawniadau'r prosiect y tu hwnt i 2027.<br><br>Bydd yr adran Gadwraeth, Coed ac Amaeth yn gweithio ar y prosiectau canlynol:<br>- Monitro a thrin unrhyw aildyfiant Rhododendron ponticum ger Llyn y Gadair, Rhyd Ddu.<br>- Trafod y camau nesaf o ran ymdrin â Rhododendron ponticum yn dilyn arolwg Cyfoeth Naturiol Cymru o Lon Gwyrfai.<br>- Parhau gyda'r drafodaeth i ddenu cyllid i ymdrin â Rhododendron ponticum yn Nant Peris.<br>- Asesu canlyniadau gwaith monitor Rhododendron ponticum ar ochrau'r ffordd rhwng Pen y Gwryd a Phont y Gromlech. | Y nifer o hectarau wedi'u trin fel rhan o brosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE a phrosiectau eraill.<br><br>Y swm o arian grant fydd wedi ei roi i'r ardal i ymdrin â rhywogaethau ymledol.<br><br>Ar gyfer AfterLIFE, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses datblygu prosiect. | APCE (Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE/ AfterLIFE)<br><br>Cymdeithas Eryri | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |





| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.2.5<br><br>Archwilio cyfleoedd ymchwil ar y cyd posibl gyda phartneriaid arbenigol sy'n annog trigolion a defnyddwyr y mynydd i wirfoddoli a chymryd rhan mewn monitro amgylcheddol, gan ganolbwyntio ar newid hinsawdd a datblygu mesurau i warchod cynefinoedd alpaidd ac ardaloedd sensitif eraill. | | Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol. | APCE<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br><br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br><br>Cymdeithas Eryri | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |
| 1.2.6<br><br>Asesu newid hinsawdd ar safle'r Rhwydwaith Newid Amgylcheddol (ECN). Cefnogi monitro parhaus o rywogaethau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd drwy ymdrechion gwirfoddol, gan gynnwys monitro gloÿnnod byw, glaw, tymheredd, a dangosyddion allweddol eraill. | Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa yn gweithio gyda thimau Cyfoeth Naturiol Cymru. | Cofnodion o dueddiadau presennol yn cael eu cadw a'u cynnal rŵan, ac i'r dyfodol.<br><br>Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol. | Cyfoeth Naturiol Cymru<br><br>APCE | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |

| 1.3 Mae'r Wyddfa yn cael ei chydnabod ar draws y byd fel y mynydd di-blastig cyntaf, gan osod esiampl mewn cynaliadwyedd amgylcheddol. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.3.1<br><br>Parhad a datblygiad y prosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig. | Codi ymwybyddiaeth ymhlith yr holl ddefnyddwyr am effeithiau llygredd untro, gan gynnwys gwastraff organig.<br><br>Adolygu effeithiolrwydd arwyddion atal sbwriel ac ystyried treialu technegau amrywiol, gan asesu eu heffeithlonrwydd.<br><br>Casglu data ar gyfer gweithredu ar sail tystiolaeth.<br><br>Annog cynaliadwyedd ymysg busnesau'r ardal.<br><br>Parhau i godi ymwybyddiaeth am y prosiect gyda phlant a phobl ifanc yr ardal drwy gynnal uwchgynhadledd COPA bob dwy flynedd. | Cyrraedd y statws di-blastig o fewn 5 mlynedd.<br><br>- 50% kg o ostyngiad mewn sbwriel ar yr Wyddfa o'i gymharu â gwaelodlin 2024.<br>- 50% + o fusnesau lletygarwch lleol wedi ymrwymo i'r Cynllun Busnes Di-blastig.<br>- 10 + busnes awyr agored wedi ymrwymo i'r Cynllun Di-blastig (gan gynnwys rhai allweddol fel Marathon Eryri).<br>- Tapiau ail lenwi ar waelod bob un llwybr.<br>- Holl ysgolion cynradd ardal y mynydd yn rhan o'r cynllun eco-ysgolion. | APCE<br><br>Y BMC<br><br>Trash Free Trails<br><br>Cymdeithas Eryri<br><br>YHA (Lloegr a Chymru) | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |





| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.3.2<br><br>Parhau i dreialu ffyrdd arloesol i gael gwared â nifer sylweddol o sbwriel o'r Wyddfa ac annog busnesau i gyflwyno eu syniadau eu hunain o ran lleihau gwastraff. | Parhau i gasglu data, datblygu ymchwil, a mynd ar ôl ffynonellau data sy'n ychwanegu at ein dealltwriaeth am swm, effeithiau amgylcheddol a gostyngiad mewn sbwriel.<br><br>Parhau gyda chynlluniau Caru Eryri a Wardeniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa gan hyrwyddo eu cyfraniad amhrisiadwy i waredu sbwriel o'r mynydd. | Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol. | APCE<br><br>Cymdeithas Eryri | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |
| 1.3.3<br><br>Sicrhau fod busnesau ardal yr Wyddfa yn cydymffurfio gydag unrhyw ofynion amgylcheddol. | Yn ogystal â chyfrifoldebau presennol yr awdurdodau lleol a'r cyrff rheoleiddio perthnasol, asesir yr opsiynau i wella sut y caiff hyn ei reoli. Edrychir ar unrhyw botensial i unai ei integreiddio gyda Phrosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig neu i ddatblygu peilot ar wahân fyddai'n canolbwyntio ar ddatblygu system achredu i reoleiddio ffactorau megis: pa mor amgylcheddol gyfeillgar yw'r cynhyrchion a ddefnyddir gan fusnesau, eu defnydd o fwyd o ffynonellau lleol, a'u defnydd o gerbydau ecogyfeillgar. | | Cyfoeth Naturiol Cymru<br><br>Cyngor Gwynedd | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.3.4<br><br>Cefnogi unrhyw gynlluniau sy'n annog ailddefnyddio a lleihau gwastraff e.e. siop gyfnewid (swop shop) neu ddigwyddiadau trwsio. | Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored wedi dechrau cydweithio gyda chwmnïau a mentrau lleol fel Snowdonia Gear Repair a Llysgenhadon Gwirfoddol ar wahanol brosiectau a syniadau.<br><br>Mae TAMLI wedi cynnal siop gyfnewid eisoes i godi arian i'r tîm.<br><br>Cynnal trafodaethau i weld sut allai'r Bartneriaeth gefnogi mentrau sy'n bodoli'r barod.<br><br>Datblygu prosiect gyda Snowdonia Gear Repair i greu rhywbeth o werth allan o'r dilladau a thywelion mae gwirfoddolwyr Caru Eryri a'r Wardeiniaid Gwirfoddol yn eu casglu.<br><br>Cyfleu negeseuon strategol cyson â Llywodraeth Cymru ynglŷn ag ailddefnyddio, yr economi gylchol a sero net. | Sefydlu gwaelodlin o bwysau'r dillad a gesglir felly ddim yn mynd i safleoedd tirlenwi, wrth ddylunio unrhyw brosiect.<br><br>Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol. | APCE<br><br>Y Bartneriaeth Awyr Agored<br><br>TAMLI<br><br>Cymdeithas Eryri | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |





| 1.4 Mae ymgyrchoedd addysg gyhoeddus yn codi ymwybyddiaeth o ymddygiadau niweidiol fel barbeciwio, cerdded oddi ar y llwybr, peidio ymlynu at Gôd Cerdded Cŵn CNC, gwersylla gwrthgymdeithasol, taflu sbwriel a graffiti. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.4.1<br><br>Cydweithio i leihau achosion o gampio anghymdeithasol a chysgu dros nos mewn lleoliadau anawdurdodedig, gan gynnwys cilfannau, mewn cerbydau megis ceir, faniau gwersylla neu bebyll ar doeau ceir. | Cynnal arolwg o fewn y tair blynedd nesaf i gasglu data o ran faint o gerbydau sy'n aros mewn cilfannau dros nos yn ardal Yr Wyddfa, ac am faint o hir, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o batrymau o ran y defnydd o'r cilfannau dros nos.<br><br>APCE a Chyngor Gwynedd i barhau i gydweithio ar ymgyrchoedd ar y cyd sy'n annog ymweliadau cyfrifol megis Gwynedd ag Eryri Ni.<br><br>Arbrofi gydag arwyddion arbennig mewn ardal benodol.<br><br>Gwella'r wybodaeth sydd ar gael i ymwelwyr am feysydd gwersylla swyddogol.<br><br>Ymgyrch gyfathrebu ar Gôd Cefn Gwlad a'r disgwyliadau ymddygiadol mewn Parciau Cenedlaethol.<br><br>Cydweithio gyda'r gwasanaeth tân ar ymgyrch codi ymwybyddiaeth ar effaith negyddol barbeciwio yn y Parc Cenedlaethol. | Sefydlu gwaelodlin gan werthuso'r canfyddiadau i osod targedau priodol gan weithredu'r ymyriadau angenrheidiol yn seiliedig ar y canlyniadau.<br><br>Ar gyfer Gwynedd ag Eryri Ni, bydd mesuryddion yn cael eu monitro fel rhan o Gynllun Strategol Economi Ymweld Gynaliadwy Gwynedd ag Eryri.<br><br>Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol. | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br><br>Heddlu Gogledd Cymru | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.4.2<br><br>Cyfleoedd gwirfoddoli | Parhau i ymgysylltu â gwirfoddolwyr mewn mentrau fel Wardeniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa a Charu Eryri, gan ddarparu cyngor i ddefnyddwyr y mynydd a mynd i'r afael â'r heriau amrywiol. Cynnwys gwirfoddolwyr mewn tasgau fel cynnal a chadw llwybrau'r Wyddfa, a chynnig hyfforddiant achrededig yn y maes i bobl ifanc. | Y nifer o wirfoddolwyr.<br><br>Y gwaith a gyflawnir gan wirfoddolwyr.<br><br>Y nifer o wirfoddolwyr sy'n cyflawni hyfforddiant. | APCE<br><br>Cymdeithas Eryri | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |





## Treftadaeth ddiwylliannol

| **Canlyniad gorau posib: Yr Wyddfa'n parhau i ysbrydoli ac i gysylltu cenedlaethau gyda'i gilydd. Bydd ei thraddodiadau dwfn, ei hanes cyfoethog, a'i harddwch naturiol eithriadol yn parhau i fod yn achosion i'w dathlu.** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Prosiect/Gweithred/ Ffordd o weithio** | **Manylion pellach** | **Sut fydd mesur llwyddiant** | **Partneriaid perthnasol** | **Prif egwyddorion ategol Siarter Creu Lle Cymru** |
| 2.1 Mae mesurau effeithiol ar waith i ddiogelu a gwarchod treftadaeth ddiwylliannol y mynydd, gan sicrhau bod ei arwyddocâd hanesyddol, ieithyddol a thraddodiadol yn cael ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. | | | | |
| 2.1.1<br><br>Cynnal trafodaethau a sefydlu partneriaethau newydd i sefydlu beth sydd angen ei warchod, a sut. | Gan nad oedd pwyslais ar Y dreftadaeth ddiwylliannol yn y fersiwn wreiddiol o Gynllun Yr Wyddfa, bydd y gwaith hwn yn golygu agor trafodaeth gyda'r sefydliadau perthnasol (Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw, Heneb), sefydlu perthnasau gweithio, ac asesu'r hyn sydd angen ei warchod a sut. | Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol. | APCE<br><br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |

| 2.2 Mae'r Gymraeg yn gryf ym mhob agwedd o fywyd ar y mynydd, sy'n ennyn diddordeb a gwerthfawrogiad o dreftadaeth ddiwylliannol ehangach y rhanbarth, gyda'r cyhoedd a chyfryngau lledled y byd yn cydnabod ac yn defnyddio'r enwau lleoedd Cymraeg yn naturiol, ym mha bynnag iaith sy'n cael ei defnyddio. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.2.1<br><br>Mae enwau lleoedd Cymraeg, gan gynnwys eu hystyr a'u hynganiad, yn cael eu cyfleu'n eang i ddefnyddwyr, gan wella eu cysylltiad â hunaniaeth ddiwylliannol yr ardal. | Eu cynnwys mewn ymdrechion cyfathrebu megis postiadau cyfryngau cymdeithasol, ymgyrchoedd ymgysylltu, rhaglen Llysgennad Eryri, cyfweliadau, a datganiadau i'r wasg. | Cynnydd yn y ganran o'r defnyddwyr sy'n ymwybodol o'r enwau Cymraeg a lleihad yn y ganran o ddefnyddwyr sy'n meddwl fod dryswch rhwng yr enwau. I'w fesur yn Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2028. | Holl bartneriaid | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |
| 2.2.2<br><br>Annog defnydd o'r enwau Cymraeg a chefnogi hynny drwy gyfrwng hyfforddiant a rhannu gwybodaeth. | Prosiect Enwau Caeau, Stori'r Tir Dyffryn Peris.<br><br>Gweithdai casglu enwau.<br><br>Sesiynau hyfforddiant i fusnesau lleol.<br><br>Rhaglen Llysgennad Eryri.<br><br>Ymgyrchoedd cyfathrebu. | Cynnydd yn y ganran o'r defnyddwyr sy'n ymwybodol o'r enwau Cymraeg a lleihad yn y ganran o ddefnyddwyr sy'n meddwl fod dryswch rhwng yr enwau. I'w fesur yn Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2028. | Holl bartneriaid | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |





| 2.3 Mae ymgysylltu â'r Wyddfa drwy fentrau cyfathrebu Partneriaeth yr Wyddfa neu drwy ymweld, yn meithrin parch at ei threftadaeth ddiwylliannol ac yn dyfnhau dealltwriaeth a gwerthfawrogiad defnyddwyr o'r elfennau hyn. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.3.1<br><br>Cyfleu'r neges fod treftadaeth yn eiddo i bawb, felly bod dyletswydd ar bawb i'w hamddiffyn. | Rhannu gwybodaeth am dreftadaeth yr ardal a chynnwys manylion penodol mewn deunydd cyfathrebu pan yn briodol. | Cynnydd yn nealltwriaeth y cyhoedd o'r dreftadaeth ddiwylliannol.<br><br>Nid yw hyn wedi'i fesur o'r blaen, felly caiff gwaelodlin ei sefydlu yn yr arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa nesaf, sydd wedi ei raglennu ar gyfer 2028. | Holl bartneriaid | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.3.2<br><br>Addysgu plant a phobl ifanc am y dreftadaeth ddiwylliannol trwy Gwricwlwm Cymru. | Ymchwilio beth sy'n bodoli'n barod o ran pecynnau addysg perthnasol i'r Wyddfa gan bwyso a mesur a oes rhai angen eu hyrwyddo, ac os felly, a oes unrhyw fylchau o ran y ddarpariaeth gyfredol (Swyddog Pobl Ifanc APCE).<br><br>Datblygu modiwl neu addasu modiwl sy'n bodoli'n barod o raglen Llysgennad Eryri i fod yn addas i blant/ysgolion a'i rannu gydag ysgolion Gwynedd/Conwy.<br><br>Swyddog Pobl Ifanc APCE i gydweithio gyda'r Bartneriaeth Awyr Agored i ddatblygu a rhannu cynnwys addas i bobl ifanc.<br><br>Gan fod nifer o ysgolion lleol yn ymweld â'r Wyddfa fel rhan o'u hwythnos gweithgareddau ddiwedd tymor, Swyddog Pobl Ifanc i ddatblygu pecyn i ysgolion weithio arno cyn ymweld â'r Wyddfa, yn cynnwys gwybodaeth am y dreftadaeth ddiwylliannol. | Y nifer o ysgolion, plant a phobl ifanc sy'n ymgymryd ag unrhyw ddeunydd sy'n cael ei greu.<br><br>Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol. | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br><br>Y Bartneriaeth Awyr Agored | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.3.3<br><br>Diwylliant y dyfodol. Gweithio gyda phobl ifanc i ddadansoddi beth yw diwylliant bro'r Wyddfa heddiw. | Sut mae ei ddiffinio? Beth sy'n ddeniadol ac yn gyfredol am ddiwylliant modern Cymreig i bobl ifanc lleol a phobl sy'n defnyddio'r ardal? | Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol. | APCE (Swyddog Pobl Ifanc)<br><br>GwyrddNi<br><br>Cyngor Gwynedd | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |
| 2.3.4<br><br>Gwella dealltwriaeth y cyhoedd o bwysigrwydd cenedlaethol y dreftadaeth ddiwylliannol. | Cysylltu'r dreftadaeth ddiwylliannol gyda digwyddiadau neu deithiau cerdded sy'n cael eu hyrwyddo neu sy'n cael eu datblygu e.e. Cylchdaith Yr Wyddfa.<br><br>Annog cymunedau i ymchwilio i'w treftadaeth ddiwylliannol eu hunain e.e. Prosiectau APCE i ddiogelu enwau hanesyddol ar y dirwedd. | Cynnydd yn nealltwriaeth y cyhoedd o'r dreftadaeth ddiwylliannol.<br><br>Nid yw hyn wedi'i fesur o'r blaen, felly caiff gwaelodlin ei sefydlu yn yr arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa nesaf, sydd wedi ei raglennu ar gyfer 2028. | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.3.5<br><br>Archwilio cyfleoedd i gydweithio i gefnogi, datblygu, a sicrhau cyllid ar gyfer prosiect ymchwil Olrhain Olion. | Mae gan brosiect Olrhain Olion dri phrif amcan:<br><br>1. Gwella dealltwriaeth a gwybodaeth y cyhoedd am arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol Yr Wyddfa.<br><br>2. Newid ymddygiad ac agweddau ynglŷn â rhinweddau a materion amgylcheddol y mynydd yn y gorffennol a'r presennol.<br><br>3. Hyrwyddo cyfleoedd i gynulleidfaoedd gwahanol ymgysylltu â hanes diwylliannol y mynydd.<br><br>Dros y 3-5 mlynedd nesaf, bydd y prosiect yn cynnwys arddangosfeydd, casgliad o hanesion llafar, digideiddio a chadw deunyddiau archifol, cyflwyniadau cyhoeddus, a chasglu a dadansoddi data. Bydd hyn yn cael ei gefnogi drwy gais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. | Ymgysylltu: Ehangu'r ymgysylltu cyhoeddus gyda'r prosiect a datblygu arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol y mynydd drwy arddangosfeydd, cyfryngau cymdeithasol, a digwyddiadau ymgysylltu.<br><br>Agweddau: Myfyrio ar faterion y gorffennol a'r dyfodol a sut y canfyddir y mynydd, a chynyddu gwerthfawrogiad y cyhoedd o'r iaith Gymraeg a'r diwylliant.<br><br>Mabwysiadu: Defnyddio deunyddiau a gwaith ymchwil sy'n deillio o'r prosiect i gefnogi mentrau addysgiadol, cymunedau lleol a rhanddeiliaid ag i lywio polisi a strategaeth APCE.<br><br>Partneriaethau a Chydweithrediadau: Adeiladu, sefydlu a chynnal partneriaethau gyda rhanddeiliaid perthnasol a chymunedau lleol.<br><br>Bydd llwyddiant yn cael ei fesur drwy fonitro'r niferoedd mewn arddangosfeydd, digwyddiadau trefnedig, ac ymgysylltu drwy gyfryngau cymdeithasol. Bydd adborth ansoddol o'r llyfrau ymwelwyr a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid perthnasol yn mesur effaith y prosiect ar newid agweddau a dealltwriaeth. Bydd ymgysylltu â'r cyfryngau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn cael ei fonitro, ochr yn ochr â sut mae'r ymchwil yn cynnwys ac yn effeithio ar unrhyw bolisïau. | APCE<br><br>Prifysgol Caer<br><br>Prifysgol Bangor: Archifau a Chasgliadau Arbennig<br><br>Y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |





## Cymunedau

| Canlyniad gorau posib: Y cymunedau yn chwarae rhan allweddol mewn meithrin ymdeimlad o berthyn. Bydd eu cysylltiad dwfn gyda'r mynydd yn cryfhau gan gyfrannu tuag at eu llesiant, ac yn cynnig manteision corfforol, emosiynol a chymdeithasol. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Prosiect/Gweithred/ Ffordd o weithio** | **Manylion pellach** | **Sut fydd mesur llwyddiant** | **Partneriaid perthnasol** | **Prif egwyddorion ategol Siarter Creu Lle Cymru** |
| 3.1 Cyd-ddylunio a chydweithio ystyrlon gyda'r cymunedau i greu cynlluniau sy'n sicrhau gwydnwch a lles hirdymor y cymunedau rheiny a'r mynydd. | | | | |
| 3.1.1<br><br>Parhau i gyd-gynhyrchu gyda'r cymunedau. | APCE yn datblygu strategaeth cyd-gynhyrchu ac ym mabwysiadu'r dull fel modd o wneud penderfyniadau ar y cyd gyda'r cymunedau.<br><br>Gweithio o fewn strwythurau ArdalNi sydd wedi eu sefydlu gan Gyngor Gwynedd. | Pobl sy'n byw yng nghymunedau'r Wyddfa yn teimlo fod eu cyfraniad yn werthfawr a bod eu lleisiau yn cael eu clywed. Bydd hyn yn cael ei fesur mewn arolwg cymunedol a gynhelir yn ystod 2026. | Holl bartneriaid | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.1.2<br><br>Cefnogi a chydweithio gyda mentrau cymunedol sydd yn rhannu'r un gwerthoedd â'r Bartneriaeth, o fewn y cylch gwaith a'r adnoddau sydd ar gael. | Mynychu a chyfrannu i gynlluniau ardal ArdalNi. | N/A | Holl bartneriaid | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |
| 3.2 Cryfhau'r cysylltiad rhwng pobl a'r tir, gan sicrhau bod cymunedau lleol yn cyfrannu'n gyson at warchod a mwynhau'r mynydd. | | | | |
| 3.2.1<br><br>Atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng cymunedau a bywyd gwyllt y mynydd er mwyn gwella llesiant unigolion ac ennyn parch at yr ecosystem. | Edrych ar fentrau cyfredol megis rhaglen Cysylltiad â Natur Trash Free Trails (TFT).<br><br>Datblygu cyrsiau neu hyfforddiant (ar-lein ac arall) a/neu ddatblygu syniadau fel 'Brecwast ar y Bryniau'.<br><br>Creu deunyddiau hyrwyddo addas e.e. posteri, gan roi enghreifftiau o sut all trigolion lleol ymgysylltu â'r mynydd a'i amgylchedd.<br><br>Ymgyrch sy'n targedu pobl yn Eryri a thu hwnt.<br><br>Trwy weithio mewn partneriaeth ar raddfa tirwedd e.e. Partneriaeth Tirwedd Carneddau a Phartneriaeth Cwm Idwal – hyrwyddo a gwahodd pobl i ymgysylltu ar sawl lefel.<br><br>Cynyddu cyfleoedd ar gyfer prosiectau gwyddoniaeth dinasyddion.<br><br>Gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion a cholegau lleol i rannu gwybodaeth am ddiogelwch mynydd a rhinweddau arbennig Yr Wyddfa. | Cynnydd yn y ganran o ddefnyddwyr sy'n nodi eu bod yn teimlo bod eu cyswllt â natur wedi cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant. I'w fesur yn arolwg defnyddwyr 2028.<br><br>Cynnydd mewn ysgolion a cholegau sy'n cael mynediad at adnoddau penodol e.e. gwefannau a phecynnau addysg.<br><br>Grwpiau o ddefnyddwyr eraill, gan gynnwys y rhai sy'n ymddiddori mewn celf, ymwybyddiaeth ofalgar a phresgripsiynu cymdeithasol, sy'n ceisio ymgysylltu â'r Wyddfa. | APCE<br><br>Plantlife Cymru<br><br>Cymdeithas Eryri<br><br>Eryri Actif<br><br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br><br>Y BMC<br><br>Trash Free Trails | Pobl a chymuned, Defnydd cymysg, Hunaniaeth |





| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.2.2<br><br>Cymunedau'r mynydd yn teimlo fod ganddynt fynediad i allu mwynhau'r Wyddfa. | Gwirfoddolwyr Yr Wyddfa<br><br>Caru Eryri<br><br>Copa1<br><br>Swyddog Ieuenctid<br><br>Edrych ar gyfleoedd i ddenu mwy o wirfoddolwyr o oedrannau gwahanol drwy hyrwyddo buddion gwirfoddoli ar iechyd a llesiant e.e. clybiau chwaraeon, clybiau ffermwyr ifanc.<br><br>Ehangu trafnidiaeth gyhoeddus i ardaloedd eraill i wella'r cysylltedd gyda'r Wyddfa.<br><br>Datblygu cyfleoedd i bobl leol ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus e.e. bysiau fflecsi, trigolion yn teithio am bris gostyngedig. | Bydd hyn yn cael ei fesur mewn arolwg cymunedol a gynhelir yn ystod 2026. | APCE<br><br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br><br>Cymdeithas Eryri | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau Hunaniaeth |

| 3.3 Anogir pob defnyddiwr i ymgysylltu â gwasanaethau a busnesau lleol a'u cefnogi er mwyn budd economaidd y cymunedau. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.3.1<br><br>Annog y cyhoedd, sefydliadau a busnesau i ddefnyddio gwasanaethau sydd wedi eu lleoli yn yr ardal. | Datblygu prosiect sy'n dod â gwybodaeth am ddarparwyr amrywiol wasanaethau sy'n berthnasol i'r Wyddfa ynghyd e.e. darparwyr tra medrus lleol.<br><br>Gweithio gyda darparwyr lleol i ddatblygu gwibdeithiau yn yr ardal.<br><br>GwyrddNi yn cynnal cylchdeithiau cynaliadwyedd a sesiynau blasu cymunedol. | Cyflogaeth leol dda.<br><br>Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol. | Holl bartneriaid | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau Hunaniaeth |





## Gweithgareddau awyr agored

| **Canlyniad gorau posib: Effeithiau negyddol rhai gweithgareddau ar y mynydd yn cael eu lliniaru fel nad oes niwed i'r amgylchedd, y dreftadaeth ddiwylliannol na'r cymunedau. Gweithgareddau'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r economi gyda gwasanaethau'n gweithredu'n effeithiol.** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Prosiect/Gweithred/ Ffordd o weithio** | **Manylion pellach** | **Sut fydd mesur llwyddiant** | **Partneriaid perthnasol** | **Prif egwyddorion ategol Siarter Creu Lle Cymru** |
| 4.1 Mae cydweithio gyda'r adnoddau sydd ar gael gyda'r gwasanaethau brys, timau achub mynydd a rhanddeiliaid yn helpu i leihau galwadau osgoadwy ac yn gwella negeseuon diogelwch, gan hyrwyddo ymgymryd â gweithgareddau awyr agored mewn modd cyfrifol. | | | | |
| 4.1.1<br><br>Cydweithio gyda Thîm Achub Mynydd Llanberis ac asiantaethau achub eraill er mwyn lleihau'r galwadau a'r pwysau cynyddol ar y timau, drwy gyfrwng Partneriaeth Diogelwch Awyr Agored Gogledd Cymru. | Cytuno ar nifer o weithgareddau addas i bob sefydliad a monitro'r effaith ar alwadau pob blwyddyn.<br><br>Annog cerddwyr i beidio â mynd i fyny i gyfeiriad Grib Goch yn ddamweiniol a chodi ymwybyddiaeth o natur heriol y llwybr.<br><br>Annog cerddwyr i beidio â dilyn neu greu llwybrau llai hysbys ac answyddogol ar dir anodd.<br><br>Sicrhau bod defnyddwyr yn gallu dilyn llwybr clir i gyrraedd copa'r Wyddfa ar Lwybr Watkin. | Nifer y galwadau osgoadwy i Dîm Achub Mynydd Llanberis yn lleihau yn ôl data TAMLI.<br><br>Lleihad yn nifer y dyddiau gyda galwadau i DAMLI.<br><br>Llai o ddyddiau gyda mwy nag un galwad yn cael eu cofnodi gan DAMLI. | APCE<br><br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br><br>Heddlu Gogledd Cymru<br><br>TAMLI<br><br>Eryri Actif<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Y BMC | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.1.2<br><br>Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa | Parhau i gynnal y gwasanaeth gyda gwirfoddolwyr yn cefnogi TAMLI yn ogystal, gan weithredu o fewn eu cwmpas dynodedig o ddyletswyddau a'r adnoddau sydd ar gael.<br><br>Parhau i recriwtio a hyfforddi Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa i gyfathrebu a chynghori defnyddwyr tra byddant ar batrôl.<br><br>Ehangu rôl Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa i gynnwys patrolau estynedig yn ystod y cyfnodau pan mae'r galwadau i'r timau achub yn uchel.<br><br>Arbrofi gyda ffonau symudol yn ystod y patrolau estynedig, er mwyn cysylltu gyda'r timau achub – monitro effaith y trefniant hwn.<br><br>Ymchwilio i drefniadau pellach, sydd wedi'u dylunio ar gyfer gostwng y nifer o alwadau osgoadwy i'r timau achub. | Cadw golwg ar y nifer o alwadau ar y diwrnodau pan fydd y Wardeiniaid Gwirfoddol allan ar y mynydd.<br><br>Adborth gan Wardeiniaid Gwirfoddol ar y math o sgyrsiau maent wedi'u cynnal gyda defnyddwyr.<br><br>Cofnodi'r nifer o sgyrsiau fesul shifft.<br><br>Data pellach gan LIMRT. | APCE | |





| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.1.3<br><br>Dadansoddi prif dueddiadau'r galwadau ar Yr Wyddfa a chyd-gynllunio ymyriadau effeithiol, o fewn y cylch gwaith a'r adnoddau sydd ar gael. | Parhau i gasglu data o'r cyfrifwyr ar lwybrau'r Wyddfa gan ddadansoddi'r data i ddeall patrymau tymhorol a darogan pa gyfnodau fydd yn brysur.<br><br>Darparu hyfforddiant i ddarparwyr llety gan gynnwys gwybodaeth am sut i rannu negeseuon diogelwch gyda'r gwesteion er mwyn lleihau'r galwadau osgoadwy i Dîm Achub Llanberis. | Nifer y galwadau osgoadwy i Dîm Achub Mynydd Llanberis yn lleihau. | APCE<br><br>Eryri Actif<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>TAMLI<br><br>Y BMC | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau |
| 4.1.4<br><br>Ehangu'r peilot o gael hwb gwybodaeth ar odre Llwybr Llanberis gyda staff ar gael i gynghori defnyddwyr. | Y trelar i'w leoli ychydig heibio Penceunant a'i staffio dros benwythnosau yn ystod haf 2025 i dargedu'r ystadegau canlynol gan DAMLI:<br><br>- Mae 71% o alwadau 'methu parhau' yn ymddangos ar Lwybr Llanberis.<br><br>- Mae clystyrau nodedig o ddigwyddiadau yn digwydd wrth y Caffi Hanner Ffordd; Allt Moses, heibio Gorsaf Clogwyn, i'r copa.<br><br>- Mae'r rhan fwyaf o achubiadau yn digwydd ar benwythnosau (48%) gyda dydd Sadwrn fel y diwrnod prysuraf (29%).<br><br>- 4yh yw'r amser be mae galwadau yn digwydd amlaf. Awst yw'r mis prysuraf a dydd Sadwrn yw'r diwrnod prysuraf o'r wythnos.<br><br>- Yn ogystal â'r uchod, archwilio'r potensial o ymgorffori technegau sy'n mynd i'r afael â'r ymddygiad o daflyd sbwriel, trwy ymyrryd cyn i bobl ystyried gollwng llygredd untro. | Llai o alwadau 'methu parhau' i DAMLI o lwybr Llanberis.<br><br>Defnyddio teclynnau clicio i gofnodi nifer yr ymyriadau; cofnodi'r mathau o sgyrsiau a geir mewn siart.<br><br>Ehangu'r peilot yn dilyn dadansoddiad o ddata 2015. | APCE<br><br>Trash Free Trails<br><br>Cymdeithas Eryri | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.1.5<br><br>Mynd ar ôl unrhyw gyfleoedd i ehangu presenoldeb staff ar y ddaear. | Fforwm a sefydlwyd gan Heddlu Gogledd Cymru i lunio memorandwm o ddealltwriaeth er mwyn rhannu adnoddau rhwng sefydliadau.<br><br>Ymchwilio i'r posibiliadau o ran cydweithio gyda Pharciau Cenedlaethol eraill ar gynlluniau cyfnewid sydd â gogwydd wardeinio/cadwraethol.<br><br>Wardeiniaid Gwirfoddol. | Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol. | APCE<br><br>Heddlu Gogledd Cymru | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau |
| 4.2 Mae mwy o gyfleoedd i ddysgu ac i ymgysylltu â'r awyr agored drwy hyrwyddo defnydd cyfrifol o dir, ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac amgylcheddol, a diogelwch, gan gynnwys rheoli cŵn. | | | | |
| 4.2.1<br><br>Cynyddu'r cyfleoedd addysgiadol yn yr awyr agored. | Archwilio'r posibiliadau o arwain mwy o deithiau cerdded i grwpiau lleol a chenedlaethol i'w haddysgu am y mynydd, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch, yr amgylchedd, a'r dreftadaeth ddiwylliannol. | Nifer o ddigwyddiadau, nifer mynychwyr ac adborth gan fynychwyr.<br><br>Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol. | APCE<br><br>Y BMC<br><br>Y Bartneriaeth Awyr Agored<br><br>Eryri Actif<br><br>GwyrddNI<br><br>Cyngor Gwynedd | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |





| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.2.2<br><br>Gweithio gyda ffermwyr a thirfeddianwyr i rannu negeseuon am sut i reoli cŵn ar dir amaethyddol. | Ehangu'r prosiectau sydd wedi'i sefydlu'n barod.<br><br>Cydweithio â sefydliadau ymbarél lleol a chenedlaethol i ddatblygu a gweithredu strategaethau i fynd i'r afael â'r broblem gynyddol o fagiau baw cŵn yn cael eu taflu yn yr amgylchedd.<br><br>Ymchwilio i ddatrysiadau posib mewn ardaloedd tebyg. | Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol. | APCE<br><br>NFU Cymru<br><br>Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)<br><br>CLA Cymru<br><br>Ystâd Baron Hill<br><br>Cymdeithas Eryri | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.3 Mae trefnwyr digwyddiadau yn annog parch at y mynyddoedd a chymunedau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd preswyl, drwy leihau llygredd sŵn a golau. Trefnir digwyddiadau i osgoi cyfnodau brig a thymhorau sensitif fel nythu, gan sicrhau eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned leol wrth leihau effeithiau amgylcheddol. | | | | |
| 4.3.1<br><br>Annog trefnwyr digwyddiadau a darparwyr gweithgareddau i osgoi'r cyfnodau brig, cyfnodau â'r mwyaf o alwadau i'r tîm achub a'r tymor nythu (Mai/Mehefin), yn ogystal ag annog digwyddiadau llai a chryfhau'r cyfathrebu yn gyffredinol gyda threfnwyr digwyddiadau. | APCE i barhau i weinyddu'r bas data sydd yn cofnodi'r digwyddiadau wedi'u trefnu ar Yr Wyddfa, gan annog trefnwyr i gynnal digwyddiadau mewn modd sy'n golygu'r effaith leiaf posib ar y mynydd, ei amgylchedd a'r cymunedau.<br><br>Monitro effaith diwygio'r holiadur i drefnwyr gan y Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Gwynedd ar gyfer 2025, i ofyn a oes ystyriaethau amgylcheddol wedi bod ac os yw'r rheiny wedi eu hamlygu gyda'r awdurdodau perthnasol.<br><br>Pan fo'n briodol, defnyddio deunyddiau sy'n bodoli eisoes i hyrwyddo arfer da, fel y daflen a grëwyd gan y BMC sy'n targedu trefnwyr digwyddiadau mawr yn yr ucheldiroedd. | Llai o ddigwyddiadau yn ystod y tymor nythu a'r cyfnodau brig.<br><br>Llai o dagfeydd ar y mynydd yn ystod y cyfnodau hynny.<br><br>Mwy o weithgaredd yn ystod tymor tawelach, a fydd o fudd i ddarparwyr twristiaeth lleol.<br><br>Gwell cyfathrebu a dealltwriaeth rhwng trefnwyr digwyddiadau a'r awdurdodau perthnasol.<br><br>Nifer y trafodaethau pellach gyda threfnwyr digwyddiadau am effeithiau amgylcheddol. | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br><br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br><br>Eryri Actif | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |
| 4.3.2<br><br>Ymchwilio i'r posibilrwydd o gael trefnwyr digwyddiadau a darparwyr gweithgareddau i roi rhywbeth yn ôl i'r ardal. | Ystyried datblygu ac awgrymu swm cynghorol o gyfraniad yn seiliedig ar y nifer o bobl sy'n cymryd rhan.<br><br>Ymchwil desg i weld beth sydd wedi ei weithredu mewn ardaloedd eraill tebyg.<br><br>Annog trefnwyr digwyddiadau i gynnig pecyn gwirfoddoli i'w mynychwyr. Ras ar ddydd Sadwrn, gwirfoddoli ar ddydd Sul.<br><br>Archwilio ffyrdd o integreiddio'r cynllun presennol ar gyfer cymeradwyo digwyddiadau gan TFT fel rhan o broses rheoli digwyddiadau. | Astudiaethau achos sy'n dangos sut mae rhoddion wedi cael eu buddsoddi. | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br><br>Trash Free Trails<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br><br>Eryri Actif | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |
| 4.3.3<br><br>Codi ymwybyddiaeth ymysg trefnwyr digwyddiadau a darparwyr gweithgareddau am bwysigrwydd digwyddiadau cynaliadwy gan gynnwys llonyddwch a thawelwch i fyd natur ac i gymunedau, yn enwedig yn hwyr yn y nos ac yn gynnar yn y bore. | APCE i barhau i adolygu'r Canllawiau ar gyfer Digwyddiadau Cystadleuol, Hamdden ac Elusennol a'i hyrwyddo drwy ddulliau a phlatfformau amrywiol.<br><br>Defnyddio digwyddiadau cyfrifol fel astudiaethau achos o'r arfer gorau mewn cyfathrebu perthnasol ac ymarferol.<br><br>Archwilio ffyrdd o fanteisio ar y cynllun presennol ar gyfer cymeradwyo digwyddiadau gan TFT.<br><br>Datblygu'r berthynas rhwng y sector a phrosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig ac/neu raglen Llysgennad Eryri ac i unrhyw achrediad adlewyrchu digwyddiadau sydd wedi eu trefnu'n dda ac sy'n gynaliadwy. | Gwell diogelwch o amgylch digwyddiadau.<br><br>Llai o effaith ar yr amgylchedd, llai o lygredd ac allyriadau carbon.<br><br>Llai o effaith ar wasanaethau a chyfleusterau lleol fel meysydd parcio a thoiledau.<br><br>Llai o effaith ar gymunedau mewn ardaloedd sy'n boblogaidd gyda threfnwyr digwyddiadau. Gwaelodlin i'w sefydlu mewn arolwg cymunedol yn ystod 2026. | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br><br>Eryri Actif<br><br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br><br>Y BMC<br><br>Trash Free Trails | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |



Cynllun gweithredu

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.3.4<br><br>Codi ymwybyddiaeth fod angen cael caniatâd gan dirfeddianwyr a Chyfoeth Naturiol Cymru os ydynt yn cynnal digwyddiad mewn SoDdGA. | Cyfoeth Naturiol Cymru i gynhyrchu cyngor clir a chyson yn unol â phartneriaid eraill. | Mwy o drefnwyr digwyddiadau yn cysylltu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru am ganiatâd.<br><br>Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol.<br><br>Ar gyfer ymdrechion hyrwyddo, byddwn yn mesur ffactorau amrywiol yn seiliedig ar y dulliau a ddefnyddir, megis y nifer sy'n ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol, cyfraddau presenoldeb mewn digwyddiadau, ac adborth mewn arolygon. | Cyfoeth Naturiol Cymru<br><br>APCE<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br><br>Eryri Actif | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |
| 4.3.5<br><br>Cydweithio â darparwyr i sicrhau fod gweithgareddau yn y ceunentydd yn cael eu cynnal mewn ffyrdd cynaliadwy. | Rhannu Côd Ymddygiad Cerdded Ceunentydd Gogledd Cymru drwy'r sianeli perthnasol.<br><br>Edrych ar ffyrdd i wneud gweithgareddau fel hyn yn fwy cynaliadwy. | Ar gyfer ymdrechion hyrwyddo, byddwn yn mesur ffactorau amrywiol yn seiliedig ar y dulliau a ddefnyddir, megis y nifer sy'n ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol, cyfraddau presenoldeb mewn digwyddiadau, ac adborth mewn arolygon. | Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br><br>APCE<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Eryri Actif | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |





| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.3.6<br><br>Parhau i feithrin perthnasau gyda'r sector awyr agored, Parciau Cenedlaethol eraill a sefydliadau cenedlaethol er mwyn cydlynu a rhannu negeseuon ar ddiogelwch, cadwraeth, ac ymweliadau cyfrifol ar draws platfformau. | Ae.e. gyda Chroeso Cymru er mwyn rhannu ein negeseuon yn ehangach/ar lefel genedlaethol.<br><br>Cydweithio gyda chyrff rheoleiddio fel Cymdeithas Rhedeg Mynydd Cymru ac Athletau Cymru i sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu rheoli'n fwy effeithiol a chyson.<br><br>APCE a Chyngor Gwynedd i barhau i gydweithio ar ymgyrchoedd ar y cyd sy'n annog ymweliadau cyfrifol megis Gwynedd ag Eryri Ni. | Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol.<br><br>Ar gyfer Gwyned ag Eryri Ni, bydd mesuryddion yn cael eu monitro fel rhan o Gynllun Strategol Economi Ymweld Gynaliadwy Gwynedd ag Eryri. | APCE<br><br>Eryri Actif | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |

| 4.4 Mae ymchwil barhaus i effeithiau amgylcheddol ac economaidd gweithgareddau awyr agored yn meithrin partneriaethau i wella rheolaeth digwyddiadau a sicrhau cynaliadwyedd. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.4.1<br><br>Ymchwilio i effaith digwyddiadau wedi eu trefnu ar y mynydd a'r effaith economaidd ar yr ardal. | Cynnal trafodaethau gyda Phrifysgol Bangor i weld a oes cyfle i gydweithio ar ymchwil o'r fath.<br><br>Edrych ar yr ymchwil data ôl ddigwyddiad sydd yn cael ei gynnal yn sirol gan Gyngor Gwynedd, gan edrych yn benodol ar y canlyniadau o ran ardal Yr Wyddfa.<br><br>Edrych ar y model asesu buddion cymunedau yn sgil digwyddiad, sydd wedi ei ddarparu i Gyngor Gwynedd gan Brifysgol Bangor. | Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol. | APCE<br><br>Cygor Gwynedd<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |
| 4.4.2<br><br>Ymchwilio i'r cyfleoedd i gydweithio a chreu perthnasau newydd gyda sefydliadau perthnasol i rannu negeseuon amrywiol. | Hyfforddiant amgylcheddol ar gyfer darparwyr gweithgareddau wedi eu trefnu gan Eryri Actif. Cyfle i rannu gwybodaeth ar hamddena amgylcheddol/diwylliedig/cyfrifol.<br><br>Cryfhau'r berthynas gyda Mountain Training Cymru fel ffordd o gyfathrebu gyda darparwyr.<br><br>Rhannu modiwlau neu gydweithio gyda Mountain Training fel rhan o'i digwyddiadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus. | Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol. | APCE<br><br>Eryri Actif<br><br>Y BMC<br><br>Trash Free Trails<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |





| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.4.3<br><br>Parhau i gydweithio er mwyn atgyfnerthu negeseuon bioddiogelwch. | APCE i barhau i adolygu'r Canllawiau ar gyfer Digwyddiadau Cystadleuol, Hamdden ac Elusennol a'i hyrwyddo drwy ddulliau a phlatfformau amrywiol. | | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Eryri Actif<br><br>NFU Cymru<br><br>Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)<br><br>CLA Cymru<br><br>Ystâd Baron Hill<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.5 Mae niferoedd defnyddwyr yn cael eu monitro, ac mae'r data a gesglir o weithgareddau a digwyddiadau yn llywio penderfyniadau i reoli mynediad, diogelu'r amgylchedd, a chefnogi'r economi leol. | | | | |
| 4.5.1<br><br>Cynyddu dealltwriaeth defnyddwyr o beth a ganiateir, a beth sydd yn waharddedig, ar dir preifat o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. | Cynnwys y neges pan yn briodol wrth gyfathrebu ar bob platfform i wella dealltwriaeth a hyrwyddo dysgu. | Gwell dealltwriaeth gan y cyhoedd yn arwain at lai o achosion o gamymddwyn.<br><br>Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol.<br><br>Ar gyfer ymdrechion hyrwyddo, byddwn yn mesur ffactorau amrywiol yn seiliedig ar y dulliau a ddefnyddir, megis nifer sy'n ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol, cyfraddau presenoldeb mewn digwyddiadau, ac adborth mewn arolygon. | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br><br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br><br>Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)<br><br>NFU Cymru<br><br>CLA Cymru<br><br>Ystâd Baron Hill<br><br>Cymdeithas Eryri | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |
| 4.5.2<br><br>Parhau i fesur nifer defnyddwyr gan fanteisio ar unrhyw gyfleoedd i wella dealltwriaeth ynghylch niferoedd, a sut mae defnyddwyr yn defnyddio'r ardal. | e.e. GPS rhedwyr/ cystadleuwyr. | Adroddiad Ystadegau Monitro Niferoedd Ymwelwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. | APCE<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br><br>Cyngor Gwynedd | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |





## Isadeiledd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad gorau posib: Isadeiledd ardderchog a gwasanaethau integredig sy'n hygyrch ac yn addas i'r defnydd amrywiol, gyda llwybrau yn cael eu cynnal i safon uchel, yn wydn i'r amgylchedd mynyddig, ac yn gwrthsefyll effaith pobl ac erydiad.** | | | | |
| **Prosiect/Gweithred/ Ffordd o weithio** | **Manylion pellach** | **Sut fydd mesur llwyddiant** | **Partneriaid perthnasol** | **Prif egwyddorion ategol Siarter Creu Lle Cymru** |
| 5.1 Mae technoleg arloesol yn y lleoliadau allweddol o gwmpas Yr Wyddfa yn gwneud gwybodaeth am Yr Wyddfa yn hygyrch, ac yn hyrwyddo defnydd cyfrifol a gwella profiadau ymwelwyr. | | | | |
| 5.1.1<br><br>Cydweithio er mwyn gwella cysylltedd mewn cymunedau o fewn ardal y prosiect, ble mae signal ffôn yn wan neu ddim yn bodoli. | Cynnal trafodaethau a chefnogi cynlluniau perthnasol sydd yn asesu'r angen ac yn archwilio opsiynau ar gyfer gwella cysylltedd, ar yr amod eu bod yn meddu ar unrhyw ganiatâd angenrheidiol ac yn addas ar gyfer y dirwedd. | Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol. | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd | Pobl a'r gymuned, Tir y cyhoedd, Lleoliad, Cymysgedd o ddefnyddiau |
| 5.1.2<br><br>Arloesi trwy ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf yn safleoedd y Parc sydd o fewn ardal y prosiect, ar gyfer gwella profiad defnyddwyr. | e.e. WiFi Cymunedol | Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol. | APCE | Pobl a'r gymuned, Tir y cyhoedd, Lleoliad, Cymysgedd o ddefnyddiau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.2 Mae ardal Yr Wyddfa yn cynnig gwasanaethau o ansawdd uchel gyda chyfleusterau modern, glân a hygyrch i'r holl ddefnyddwyr, gan sicrhau profiad ardderchog. | | | | |
| 5.2.1<br><br>Gwella'r ddarpariaeth o ran toiledau yn ardal Llanberis i sicrhau darpariaeth 24 awr y dydd ac ymchwilio i'r posibiliadau o dreialu toiledau amgen ble mae'n briodol. | Edrych ar fusnesau sy'n darparu toiledau yn barod a gweld a oes cyfleoedd i gydweithio e.e. YHA wrth droed Llwybr Cwellyn. | Gostyngiad yn y ganran o ddefnyddwyr sy'n nodi y dylid gwella'r ddarpariaeth cyfleusterau cyhoeddus. I'w fesur yn Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2028. | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd | Pobl a'r gymuned, Tir y cyhoedd, Lleoliad, Cymysgedd o ddefnyddiau |
| 5.2.2<br><br>Ceisio am unrhyw gyfleoedd i ddenu buddsoddiad ar gyfer cyflawni amcanion y Bartneriaeth. | e.e. uwchraddio'r toiledau presennol i fedru ymdopi â'r nifer o ddefnyddwyr. | Llwyddo i sicrhau cyllid a gwelliannau yn cael eu cyflawni. | Holl bartneriaid | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Lleoliad, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |





| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.2.3<br><br>Gwella'r isadeiledd yn safleoedd yr Awdrdod pan yn briodol fel ei fod yn addas i bwrpas, yn adlewyrchu nifer y defnyddwyr ac yn arwain at brofiad ymweld o'r radd flaenaf. | Ymchwilio i unrhyw gronfeydd perthnasol i gyllido gwelliannau megis toiled ym maes parcio Cwellyn, system garthffosiaeth yn Nantgwynant, llefydd pwrpasol i gadw beiciau ag unrhyw ddeunyddiau dehongli. | Cynnydd yn y ganran o ddefnyddwyr sy'n nodi fod 'popeth yn iawn fel y mae'. I'w fesur yn Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2028. | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Lleoliad, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |
| 5.3 Mae llwybrau'r Wyddfa yn cael eu cynnal i safon uchel, gan eu gwneud yn wydn i'r amgylchedd, effaith ddynol, a newid hinsawdd. | | | | |
| 5.3.1<br><br>Parhau gyda'r gwaith o gynnal a chadw'r llwybrau i safon uchel er mwyn lleihau effaith erydiad ar gynefinoedd a sicrhau profiad rhagorol i ymwelwyr. | Yn sgil cyfleoedd ariannu yn tynhau, a'r effeithiau dynol yn parhau'n uchel, bydd angen ceisio denu buddsoddiad sylweddol er mwyn parhau gyda'r gwaith hanfodol hwn.<br><br>Caru Eryri. | Bydd archwiliad cynnydd blynyddol yn cael ei wneud.<br><br>Nifer o wellianau i'r llwybrau.<br><br>Cynnydd yn y ganran o ddefnyddwyr sy'n nodi fod 'popeth yn iawn fel y mae'. I'w fesur yn Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2028.<br><br>Canlyniadau arolwg erydiad APCE. | APCE<br><br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br><br>Cymdeithas Eryri | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Lleoliad, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |

| 5.4 Mae Cylchdaith Yr Wyddfa yn cysylltu cymunedau lleol gyda llwybrau'r mynydd, gan wella mynediad a diogelu'r amgylchedd 'run pryd. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.4.1<br><br>Parhau gyda'r gwaith o sefydlu Cylchdaith Yr Wyddfa er mwyn creu adnodd fydd yn cysylltu cymunedau ac yn darparu cysylltiadau gwell i lwybrau'r Wyddfa. | - Adolygu opsiynau a chwmpas pellach ar gyfer rhannau anorffenedig.<br><br>- Cwblhau'r rhan nesaf o'r Orsaf Bŵer i lawr i Lyn Gwynant ac ymlaen i eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Hafod y Llan. O'r fan honno, ymuno â'r rhan sydd eisoes wedi'i gwella tuag at Feddgelert. Dylai unrhyw welliannau ystyried cymeriad yr ardal/llwybr gan weddu'r hyn sydd yn bodoli'n barod.<br><br>- Parhau i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid wrth i'r prosiect ddatblygu. | Bydd archwiliad cynnydd blynyddol yn cael ei wneud. | APCE<br><br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Lleoliad, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |





| 5.5 Gweithredir atebion cynaliadwy i fynd i'r afael â materion parcio a thrafnidiaeth, gwella hygyrchedd a lleihau effaith amgylcheddol gormodedd o gerbydau. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.5.1<br><br>Ymrwymiad ar lefel strategol i ymdrin â'r heriau parcio a thrafnidiaeth yn ardal Yr Wyddfa ar gyfer y tymor canolig a'r hirdymor. | Mae cynllun strategol, wedi ei gytuno gan yr holl bartneriaid perthnasol, yn cael ei ddatblygu gydag atebion penodol yn cael eu hargymell a'u gweithredu. | Gostyngiad mewn achosion o barcio anghyfrifol ac anghyfreithlon.<br><br>Gostyngiad yn y ganran o ddefnyddwyr sy'n nodi fod angen gwell trefniadau parcio. I'w fesur yn Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2028.<br><br>Cynnydd yn y ganran o ddefnyddwyr sy'n teithio i gyrraedd Yr Wyddfa ar drafnidiaeth gyhoeddus. I'w fesur yn Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2028.<br><br>Cynnydd yn y ganran o ddefnyddwyr sy'n nodi fod Teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn opsiwn ymarferol. I'w fesur yn Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2028.<br><br>Cynnydd yn y niferoedd sy'n defnyddio'r Sherpa. | Cyngor Gwynedd<br><br>APCE | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Lleoliad, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.5.2<br><br>Ystyried yr opsiynau sydd ar gael i greu lleoliadau parcio a theithio addas ar gyfer Yr Wyddfa, gan beilota unrhyw gynllun os yw'r cyfle yn codi. | Parhau gyda'r drefn o ragarchebu lle parcio ym Mhen y Pass yn ystod tymor yr haf (Ebrill-Tachwedd), ynghyd ag arwyddion ac ymdrechion cyfathrebu i hysbysu defnyddwyr am y trefniadau. Bydd hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau archebu a diweddariadau o ran pryd fydd y system yn dychwelyd i drefn talu ac arddangos. Bydd arwyddion ag ymdrechion cyfathrebu yn sicrhau bod defnyddwyr yn ymwybodol o'r broses ac unrhyw newidiadau i drefniant parcio.<br><br>Y trefniadau hyn i'w hadolygu'n flynyddol, gyda'r posibilrwydd o addasu ar ôl pob adolygiad. | Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol.<br><br>O ran y drefn ragarchebu, bydd adolygiadau ar wefan JustPark, ynghyd ag adborth gan staff, yn cael eu monitro'n drylwyr i asesu effeithiolrwydd y system ac adnabod unrhyw welliannau. | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Cymdeithas Eryri | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Lleoliad, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |





| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.5.3<br><br>Cyfathrebu opsiynau parcio a thrafnidiaeth yn fwy effeithiol. | Hysbysebion ar gefn toiledau ac ar fysiau ayyb.<br><br>Asesu'r posibiliadau i weithio gyda'r sector breifat.<br><br>APCE a Chyngor Gwynedd i barhau i gydweithio ar ymgyrchoedd ar y cyd sy'n annog ymweliadau cyfrifol megis Gwynedd ag Eryri Ni. | Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol.<br><br>Ar gyfer ymdrechion hyrwyddo, byddwn yn mesur ffactorau amrywiol yn seiliedig ar y dulliau a ddefnyddir, megis y nifer sy'n ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol, cyfraddau presenoldeb mewn digwyddiadau, ac adborth mewn arolygon.<br><br>Ar gyfer Gwyned ag Eryri Ni, bydd mesuryddion yn cael eu monitro fel rhan o Gynllun Strategol Economi Ymweld Gynaliadwy Gwynedd ag Eryri. | Holl bartneriaid | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Lleoliad, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |
| 5.5.4<br><br>Sicrhau bod buddsoddiad yn Sherpa'r Wyddfa'n parhau a chynnal safonau'r gwasanaeth, gan sicrhau nad yw ar y lleiafswm yn dirywio. | e.e. ystyried ymestyn y gwasanaeth gyda'r nos neu'n gynnar yn y bore, yn ddibynnol ar y cyllid sydd ar gael a'r galw. | Monitro'r defnydd drwy asesu'r ffigyrau defnyddwyr. | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Lleoliad, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |

## Economi

| Canlyniad gorau posib: Economi lewyrchus er budd a lles pobl, cymunedau, ecosystem a threftadaeth ddiwylliannol Yr Wyddfa. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Prosiect/Gweithred/ Ffordd o weithio** | **Manylion pellach** | **Sut fydd mesur llwyddiant** | **Partneriaid perthnasol** | **Prif egwyddorion ategol Siarter Creu Lle Cymru** |
| 6.1 Mae mwy o bobl leol a defnyddwyr yn elwa o ymgysylltu â'r Wyddfa, cefnogi busnesau a gwasanaethau lleol, ac o gymryd rhan mewn ymdrechion i ddiogelu'r ardal. | | | | |
| 6.1.1<br><br>Annog y cyhoedd, sefydliadau a busnesau i ddefnyddio gwasanaethau syddwedi eu lleoli yn yr ardal. | Hyrwyddo darparwyr llety a meysydd gwersylla drwy'r cynllun Llysgennad Eryri.<br><br>Manteisio ar fusnesau sy'n bodoli'n barod a'u defnyddio fel llefydd i rannu gwybodaeth am ymweld yn gyfrifol a chael effaith gadarnhaol ar y mynydd.<br><br>Annog sefydliadau cenedlaethol fel Croeso Cymru i hyrwyddo busnesau micro yn ogystal â'r busnesau mwy. | Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol.<br><br>Ar gyfer ymdrechion hyrwyddo, byddwn yn mesur ffactorau amrywiol yn seiliedig ar y dulliau a ddefnyddir, megis nifer sy'n ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol, cyfraddau presenoldeb mewn digwyddiadau, ac adborth mewn arolygon. | Holl bartneriaid | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Lleoliad, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |





| 6.2 Mae defnyddwyr yn mwynhau profiad Cymreig o ansawdd uchel drwy gydol y flwyddyn, gyda niferoedd defnyddwyr cytbwys sy'n cefnogi busnesau lleol wrth reoli pwysedd yn gynaliadwy. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6.2.1<br><br>Cynnal trafodaethau gydag unrhyw fenter sydd yn awyddus i 'gymunedoli' neu i gadw'r budd yn lleol yn ardal Yr Wyddfa. | | | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Lleoliad, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |
| 6.3 Caiff contractwyr lleol eu comisiynu ar gyfer gwaith gan y Bartneriaeth, gan gyfrannu at yr economi ranbarthol wrth gefnogi arferion cynaliadwy. | | | | |
| 6.3.1<br><br>Darparu llwybr gyrfa ar gyfer pobl ifanc leol sydd eisiau hyfforddi mewn gweithgareddau awyr agored. | Cynnal trafodaeth ar ddatblygu cynllun prentisiaeth rhwng Partneriaid i godi ymwybyddiaeth am yr holl bosibiliadau o ran swyddi yn yr awyr agored.<br><br>Ehangu ar y cyfleoedd am brofiad gwaith.<br><br>Gŵyl gyrfaoedd. | Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol. | APCE<br><br>Partneriaeth Awyr Agored<br><br>GwyrddNi<br><br>Trash Free Trails<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Cymdeithas Eryri | Pobl a'r gymuned, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6.4 Mae cynnydd yn parhau o ran sicrhau Economi Ymweld Gynaliadwy i Wynedd ac Eryri, gan feithrin twf economaidd lleol wrth ddathlu a diogelu ein hiaith a'n diwylliant, gwarchod ein hamgylchedd, a sicrhau bod y manteision i gymunedau yn gorbwyso unrhyw anfanteision. | | | | |
| 6.4.1<br><br>Parhau i weithio tuag at brif amcanion Economi Ymweld Gynaliadwy Gwynedd ac Eryri. | Annog Ecodwristiaeth fel modd o gyfrannu'n gadarnhaol at yr economi leol.<br><br>Gosod cynaliadwyedd fel elfen angenrheidiol o'r economi leol, lleihau ôl troed carbon a gwarchod ein hadnoddau naturiol. | Mesuryddion wedi ei gosod yng Nghynllun Strategol Economi Ymweld Gynaliadwy Gwynedd ac Eryri. | Holl bartneriaid | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Lleoliad, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |





## Cyfathrebu

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad gorau posib: Gwybodaeth gywir ar gael yn rhwydd am ymweld â'r Wyddfa'n gynaliadwy ac am ei rhinweddau arbennig cyn yr ymweliad, yn ystod yr ymweliad ac ar ei ôl. Yn sgil hynny, defnyddwyr yn cael profiad o'r radd flaenaf drwy ymweld yn gyfrifol a chael effaith gadarnhaol ar y mynydd a'i gymunedau.** | | | | |
| **Prosiect/Gweithred/ Ffordd o weithio** | **Manylion pellach** | **Sut fydd mesur llwyddiant** | **Partneriaid perthnasol** | **Prif egwyddorion ategol Siarter Creu Lle Cymru** |
| 7.1 Mae gwybodaeth glir a chywir am ymweld â'r Wyddfa yn gynaliadwy ar gael cynymweliadau, yn ystod yr ymweliadau ac ar eu hôl i helpu defnyddwyr i leihau eu heffaith ar y mynydd a'i gymunedau. | | | | |
| 7.1.1<br><br>Dylai diogelwch mynydd a pharatoi ymlaen llaw fod yn brif ffocws ar draws holl blatfformau cyfathrebu, gan gyfleu'r neges fod Yr Wyddfa yn fynydd heriol, a bod cynllunio gofalus yn angenrheidiol cyn ymweld. | Cynorthwyo'r cyhoedd i baratoi ar gyfer ymweld ag ardal fynyddig gan bwysleisio'r neges o ran diogelwch e.e. angen bod yn glir o ran pa mor heriol yw'r llwybrau i gyd.<br><br>APCE a Chyngor Gwynedd i barhau i gydweithio ar ymgyrchoedd ar y cyd sy'n annog ymweliadau cyfrifol megis Gwynedd ag Eryri Ni. | Gostyngiad yn y ganran o ddefnyddwyr nad ydynt wedi paratoi o gwbl cyn ymweld.<br><br>Gostyngiad yn y nifer o alwadau osgoadwy i'r timau achub.<br><br>Ar gyfer Gwyned ag Eryri Ni, bydd mesuryddion yn cael eu monitro fel rhan o Gynllun Strategol Economi Ymweld Gynaliadwy Gwynedd ag Eryri. | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>TAMLI<br><br>Eryri Actif<br><br>Y BMC | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7.1.2<br><br>Rhannu gwybodaeth ynglŷn â'r modd y gall defnyddwyr gyfrannu'n gadarnhaol wrth iddynt ymweld. | Edrych ar gyfleoedd i rannu gwybodaeth gyda defnyddwyr tra'u bod allan ar y mynydd.<br><br>APCE a Chyngor Gwynedd i barhau i gydweithio ar ymgyrchoedd ar y cyd sy'n annog ymweliadau cyfrifol megis Gwynedd ag Eryri Ni. | Mwy o ddefnyddwyr yn gwirfoddoli fel rhan o gynlluniau megis Caru Eryri, Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa a phrosiectau amrywiol Cymdeithas Eryri.<br><br>Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol.<br><br>Ar gyfer Gwyned ag Eryri Ni, bydd mesuryddion yn cael eu monitro fel rhan o Gynllun Strategol Economi Ymweld Gynaliadwy Gwynedd ag Eryri. | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Eryri Actif<br><br>Cymdeithas Eryri<br><br>Partneriaeth Awyr Agored<br><br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |





| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7.1.3<br><br>Atgyfnerthu'r neges nad oes biniau ar y mynydd a'r rhesymau am hynny, ac egluro cyfrifoldeb defnyddwyr dros reoli eu gwastraff eu hunain. | Amlinellu'r opsiynau ar gyfer rheoli gwastraff, fel defnyddio cynwysyddion bwyd a diod y gellir eu hailddefnyddio a mynd â'r holl eitemau eraill adref i'w hailgylchu.<br><br>Caru Eryri i barhau i ledaenu'r neges yma. | Cynnydd yng nghanran y defnyddwyr sy'n nodi eu bod yn ymwybodol nad oes biniau ar y mynydd a bod disgwyliad iddynt fynd â'u holl sbwriel adref, i'w fesur yn Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2028. | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Cymdeithas Eryri<br><br>Trash Free Trails<br><br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |
| 7.1.4<br><br>Atgyfnerthu'r neges fod cymunedau'n bodoli yn ardal Yr Wyddfa a'u bod yn profi effeithiau negyddol ar gyfnodau. | | Cymunedau'n teimlo fod yr effeithiau negyddol yn cael eu rheoli neu eu gostwng yn llwyr. Bydd gwaelodlin yn cael ei sefydlu mewn arolwg cymunedol a gynhelir yn ystod 2026. | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>GwyrddNi<br><br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol | Pobl a'r gymuned, Symud, Tir y cyhoedd, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |

| 7.2 Mae arwyddion mewn mannau priodol yn tynnu sylw at negeseuon diogelwch i leihau nifer y galwadau osgoadwy i dimau achub mynydd, gan sicrhau profiad diogel. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7.2.1<br><br>Ystyried opsiynau ar gyfer gosod arwyddion mwy effeithiol ar y llwybrau, gan sicrhau eu bod yn addas i'r amgylchedd. | Ymchwilio i effeithlonrwydd arwyddion amrywiol mewn ardaloedd eraill, fel rhai sydd yn nodi'r amser mae'n ei gymryd i gyrraedd y copa ac i ddychwelyd. Ystyried datblygu a gosod arwyddion yn seiliedig ar dystiolaeth o'u heffeithlonrwydd.<br><br>Ystyried defnyddio ffensys llechi/crawiau ble mae'n addas i amlygu negeseuon diogelwch. Pwyso a mesur unrhyw oblygiadau gweledol neu'r posibilrwydd fod arwyddion yn creu man ymgynnull naturiol, gan arwain at i arwyddion gael eu cuddio ac i negeseuon gael eu colli.<br><br>Gellid gwneud hyn ochr yn ochr ag unrhyw adolygiad o effeithiolrwydd arwyddion, fel y rhai sy'n cynnwys negeseuon gwrth-sbwriel.<br><br>Byddai'n angenrheidiol i unrhyw arwyddion; ymlynu at ganllawiau dehongli sy'n cael eu datblygu gan APCE, sicrhau cefnogaeth y Fforwm Mynediad Lleol, a chael caniatâd cynllunio. | Os gaiff arwyddion eu datblygu a'u gosod, gellir mesur effeithlonrwydd yr arwyddion wrth edrych ar y ganran o ddefnyddwyr sy'n nodi eu bod yn dymuno gweld gwell arwyddion a byrddau gwybodaeth yn yr ardal.<br><br>Byddai gostyngiad yn y nifer o alwadau osgoadwy i'r timau achub yn arwydd o lwyddiant. | APCE<br><br>TAMLI<br><br>Eryri Actif<br><br>Y BMC<br><br>Cyngor Gwynedd | Symud, Tir y cyhoedd, Lleoliad, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |





| 7.3 Mae dulliau cyfathrebu amrywiol, gan gynnwys sianeli ac arwyddion digidol, yn addysgu ymwelwyr am reoli tir, amaethyddiaeth a chadwraeth, gan hyrwyddo dealltwriaeth o rinweddau arbennig yr ardal. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7.3.1<br><br>Mynd ar drywydd neu gefnogi unrhyw gyfle i ddatblygu rhwydwaith o lwybrau hyrwyddedig a'u hyrwyddo ar wefan APCE. | Yn amodol ar isadeiledd sefydledig ac os yw'r cymunedau'n awyddus i ddenu rhagor o ddefnydd. | Ymwelwyr yn teimlo fod ganddynt fwy o opsiynau i fwynhau'r ardal yn ddiogel, tra'n aros o fewn eu gallu ar yr un pryd.<br><br>Effeithiau gorddefnyddio'r Wyddfa yn lleihau, a chymunedau eraill yn profi'r buddion a ddaw yn sgil mwy o ddefnydd o lwybrau. | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd | Symud, Tir y cyhoedd, Lleoliad, Cymysgedd o ddefnyddiau, Hunaniaeth |

| 7.4 Mae cyfathrebu'n addasu i reoli nifer uchel o ymwelwyr yn ystod yr oriau brig, gan ddarparu gwybodaeth amser real am ddiogelwch, yr amgylchedd a gwybodaeth i ddefnyddwyr am sut i ymweld yn gyfrifol. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7.4.1<br><br>Defnyddio dulliau cyfathrebu amrywiol yn ddibynnol ar y gwahanol gynulleidfaoedd. | Arbrofi gyda dulliau cyfathrebu amrywiol i asesu effeithlonrwydd.<br><br>Gweithio gyda chwmnïau ffilmio/ rhaglenni teledi fel Tŷ Ffit i gyfleu'r prif negeseuon i gynulleidfa fwy eang ac amrywiol.<br><br>Gweithio gyda dylanwadwyr/ cwmnïau/brandiau dillad awyr agored poblogaidd sy'n rhannu'r un gwerthoedd, i gyfleu'r prif negeseuon i gynulleidfa fwy eang ac amrywiol.<br><br>Adolygu gwybodaeth ar-lein gan geisio gwella'r wybodaeth ar wefannau sydd yn cael llawer o ddefnydd.<br><br>Parhau'r drafodaeth gyda Thrafnidiaeth Cymru i asesu'r posibilrwydd i arddangos ein prif negeseuon ar fysiau. | Cynulleidfa fwy eang yn derbyn gwybodaeth gywir a safonol am sut i ymweld â'r Wyddfa'n gynaliadwy a chael effaith gadarnhaol ar y mynydd.<br><br>Pan fo'n berthnasol, sefydlir dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer prosiect neu ymgyrch benodol.<br><br>O ran ymdrechion hyrwyddo, byddwn yn mesur ffactorau amrywiol yn seiliedig ar y dulliau a ddefnyddir, megis nifer sy'n ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol, cyfraddau presenoldeb mewn digwyddiadau, ac adborth mewn arolygon. | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Eryri Actif<br><br>Trash Free Trails | Pobl a'r gymuned, Hunaniaeth |





| 7.5 Mae dulliau cyfathrebu amrywiol, gan gynnwys sianeli ac arwyddion digidol, yn addysgu ymwelwyr am reoli tir, amaethyddiaeth a chadwraeth, gan hyrwyddo dealltwriaeth o rinweddau arbennig yr ardal. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7.5.1<br><br>Parhau i ddatblygu'r Cynllun Llysgennad a manteisio ar y cyfle i gydweithio'n agosach gyda pherchnogion busnes yn yr ardal. | Addasu ac ehangu'r ddarpariaeth yn unol â'r cyllid ar gael.<br><br>Cynlluniau Llysgennad Eryri a Llysgennad Gwynedd i gydweithio a rhannu adnoddau pan fo'r cyfle'n codi. | Cynnydd yn y nifer o Lysgenhadon newydd, y rhai sy'n cyrraedd lefel aur a'r rhai sy'n ailgymhwyso yn flynyddol. | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd | Pobl a'r gymuned, Hunaniaeth |